# Discovering Old Welsh Houses

## Newsletters



# Newsletters Vol III

## June 2018- Sept 2020

## Numbers 25-34

## T.O.C & Bookmarked

© Discovering Old Welsh Houses Group

Registered charity No. 1131782

# Table of Contents

**NEWSLETTER 25** ........ **3**
June 2018 ........ 3
FROM THE CHAIR: ........ 3
NEWS UPDATE ........ 3
BRANCH EVENTS: ........ 4
TUDOR ROSES ........ 6
Peter Masters, ........ 8
**NEWSLETTER 26** ........ **8**
September 2018 ........ 9
FROM THE CHAIR ........ 9
NEWS UPDATE ........ 9
BRANCH EVENTS ........ 11
A LOCAL HISTORY PROJECT ........ 13
**NEWSLETTER 27** ........ **15**
December 2018 ........ 15
FROM THE CHAIR ........ 15
NEWS UPDATE FROM THE SECRETARY ........ 15
Tree-Ring Dating ........ 15
Apotropaic marks ........ 15
Request for help ........ 16
BRANCH EVENTS ........ 16
REPORT OF DOWHG STUDY TOUR TO CUMBRIA, 2018 ........ 18
Wally Barr, Study Tour Organiser ........ 20
**NEWSLETTER 28** ........ **20**
March 2019 ........ 21
NEWS UPDATE FROM THE SECRETARY ........ 21
FROM THE CHAIR ........ 21
The 2019 AGM (2.00 p.m.) & Public Lecture (3.00 p.m.) ........ 22
BRANCH EVENTS ........ 22
WHO BUILT THIS HOUSE? ........ 25
Gill Jones 2019 ........ 26
**NEWSLETTER 29** ........ **27**
June 2019 ........ 27
FROM THE CHAIR ........ 27
NEWS UPDATE FROM THE SECRETARY ........ 27
DOWHG AGM 2019 ........ 28
BRANCH EVENTS ........ 29
Llansilin ........ 31
Mary Cunnah ........ 32
**NEWSLETTER 30** ........ **33**
September 2019 ........ 33
FROM THE CHAIR ........ 33
NEWS UPDATE FROM THE SECRETARY ........ 33
National Eisteddford, Llanrwst ........ 34
Activities and Plans ........ 34
BRANCH EVENTS ........ 35
Place Names and their Potential ........ 38
Margaret Barr ........ 40
**NEWSLETTER 31** ........ **41**
December 2019 ........ 41
FROM THE CHAIR ........ 41
NEWS UPDATE FROM THE SECRETARY ........ 41
BRANCH EVENTS ........ 42
FROM THE NEWSLETTER EDITOR ........ 46
“Lost Houses of Wales” ........ 46
Dr Irene Brightmer ........ 48
**NEWSLETTER 32** ........ **49**
March 2020 ........ 49
FROM THE CHAIR ........ 49

NEWS UPDATE FROM THE SECRETARY ....................................................................49
DOWH is now 15 years old! ....................................................................50
NOTICE OF the 15th AGM ....................................................................51
OPEN AFTERNOON July 11th Plas Penmynydd ....................................................................51
BRANCH EVENTS ....................................................................51
THE NEW BOOK ON CRUCK BUILDING ....................................................................55
'The Afterlife of Cruck Houses – ....................................................................55
Martin Cherry and Peter Thompson. ....................................................................55
**NEWSLETTER 33 .................................................................... 57**
June 2020 ....................................................................57
FROM THE CHAIR ....................................................................57
UPDATE FROM THE SECRETARY ....................................................................57
NOTES FROM THE BRANCHES ....................................................................58
COLLATION OF RECORDS OF DOWH HOUSE VISITS ....................................................................59
John Townsend ....................................................................60
PARISHES PROJECT UPDATE & FUTURE PLANS ....................................................................60
Martin Cherry ....................................................................61
**NEWSLETTER 34 .................................................................... 62**
Sept 2020 ....................................................................62
FROM THE CHAIR ....................................................................62
UPDATE FROM THE SECRETARY ....................................................................62
Updating and Sharing Research ....................................................................63
Margaret Dunn ....................................................................63
Cruck Book update: ....................................................................63
NEWS FROM THE BRANCHES ....................................................................64
PARISHES PROJECT: WHAT NEXT? ....................................................................69
Martin Cherry ....................................................................69

# DARGANFOD HEN DAI CYMREIG
# DISCOVERING OLD WELSH HOUSES

*Dathlu Treftadaeth Cymru drwy astudio tai traddodiadol a bywydau'r bobl fu'n byw ynddynt.*

*Celebrating Welsh Heritage through the study of traditional houses and the lives of the people who lived in them.*

## CYLCHLYTHYR 25 *Mehefin 2018*

**EIN GWEFAN** http://discoveringoldwelshhouses.co.uk yw prif sianel gyfathrebu'r Grŵp – defnyddiwch hi i weld mwy o fanylion am y digwyddiadau diweddar a'r rhai sydd ar ddod, ac i edrych ar ein llyfrgell sy'n cynyddu'n gyson ac ar nodweddion eraill.

**GAIR O'R GADAIR:** O'r diwedd dychwelodd yr haul a'i wres derbyniol. Trafodwyd ymweliad y Grŵp Pensaernïaeth Frodorol i Ogledd Cymru yn gampus gan Martin, Margaret a Peter Thompson. Trefnwyd a chynlluniwyd yr achlysur yn well os rhywbeth nag unrhyw weithgaredd Militaraidd a'i wneud yn ddigwyddiad mwyaf pleserus. Hoffwn anfon ein diolch arbennig i bawb a gynorthwyodd, yn aelodau ac yn berchentywyr. Hefyd fe werthfawrogwyd yn fawr eu hymdrechion gan y cynrychiolwyr a llawer ohonynt yn wir arbenigwyr yn y maes hwn. Gwnaeth y digwyddiad hwn lawer i godi proffil ein Grŵp brwdfrydig ac amrywiaeth ac ansawdd tai cynnar ledled gogledd Cymru.

Y Cylchlythyr hwn fydd yr olaf o'r nifer a gynhyrchwyd gan Tom David. Mae ein dyled iddo yn enfawr yn enwedig am ei broffesiynoldeb, ei amynedd (yn arbennig tuag ataf fi!) ond yn fwyaf arbennig am ansawdd llwyr ei holl waith. Mae'r Cylchlythyrau a gesglir gennym yn deyrnged wych i'w waith cyson yn ogystal ag yn gofnod amhrisiadwy o'r hyn a gyflawnwyd gan y Grŵp. Mae Irene wedi cynnig yn wrol barhau y gwaith da hwn ac rydym i gyd yn anfon ein diolch a'n hanogaeth iddi, a dymuniadau gorau i chi i gyd.

*Richard Cuthbertson, Cadeirydd*



*Cynrychiolwyr VAG yn ymweld â Chaerfallen / VAG delegates visit Caerfallen*

### NEWYDDION DIWEDDARAF

**Cofiwch am CBC GDHDC (2 yp) a Darlith Gyhoeddus (3yp) ar Ddydd Gwener 22 Mehefin yng Nghanolfan Gymunedol Craig y Don, Llandudno. Siaradwraig: Eleanor Carpenter ar "Dirgelwch y Marciau ar Adeiladau."**

## NEWSLETTER 25 *June 2018*

**OUR WEBSITE** http://discoveringoldwelshhouses.co.uk is the Group's main channel of communication – please visit it to see details of recent and forthcoming events and to look at our growing library and other features.

**FROM THE CHAIR:** At last sunshine and warmth have returned. The important week of the Vernacular Architecture Group visit to North Wales was handled superbly by Martin, Margaret and Peter Thompson who planned it rather better than most Military operations and made it a most enjoyable event. I would like to send our special thanks to all who helped, members and householders. Their efforts were also much appreciated by the delegates many of whom were real experts in this field, and the whole trip has done much to raise the profile of our enthusiastic Group and the range and quality of early houses across north Wales.

This Newsletter will be the last of many produced by Tom David. We owe him an immense debt of gratitude for his professionalism, his patience (especially with me!), but most of all for the sheer quality of what he has done. Our 'collected' Newsletters stand as a magnificent tribute to his hard work as well as an invaluable record of what the Group has achieved. Irene has bravely offered to carry the good work forward and we send our thanks and encouragement to her, and best wishes to you all,

*Richard Cuthbertson, Chairman*



*Arddangosfa Prestatyn / Prestatyn Exhibition*

### NEWS UPDATE

**Remember the DOWH AGM (2 pm) & Public lecture (3 pm) on Friday 22nd June in the Craig y Don Community Centre, Llandudno. Speaker: Eleanor Carpenter on "The Mystery of Markings on Buildings."**

Fe gynhelir **digwyddiad i godi arian** ym Mhlas Penmynydd, Llangefni, Ynys Môn ar **Sadwrn 6 Hydref 2018** o hanner dydd tan 4 yp. Tâl mynediad £10 y pen (am ddim i rai dan 15 oed) – tocynnau wrth y giât. ANERCHIAD gan Richard Cuthbertson ar Blas Penmynydd a'i gysylltiadau â'r Tuduriaid. Teithiau ymweld â'r tŷ; ymweliadau â gerddi; lluniaeth ysgafn. Manylion i ddod eto.

A **Fundraising Event** will be held at Plas Penmynydd, Llangefni, Anglesey on **Saturday 6th October 2018** from noon–4 pm. Entry £10 per head (under 15s free) – tickets at the gate. TALK by Richard Cuthbertson on Plas Penmynydd and its links with the Tudors. House tours; visit the gardens; displays; light refreshments. Details to follow.

**Taith Astudio i CUMBRIA** 10-13 Medi 2018: gellwch fod mewn pryd i archebu. Cysylltwch â Wally Barr: wallybarr@yahoo.co.uk / 01745 888622.

**Study Tour to CUMBRIA** 10-13 September 2018: You may still be in time to book. Contact Wally Barr: wallybarr@yahoo.co.uk / 01745 888622.

**Rheoliadau newydd Gwarchod Data Cyffredinol:** O fewn amser byr daw'r rhain i rym a bydd yr holl aelodau yn ogystal â chysylltiadau eraill yn fuan yn derbyn gwybodaeth bellach. Os na wnewch ymateb bydd yn rhaid i ni yn ôl y gyfraith ddileu eich manylion ac ni fyddwch mwyach yn derbyn unrhyw wybodaeth oddi wrthym ni. Felly gobeithiwn glywed oddi wrth bob un ohonoch.

New **General Data Protection Regulations**: These come in to operation very shortly and all members and other contacts will soon be receiving further information. If we do not hear back from you then we will be required by law to delete your details from our records and you will no longer receive any information from us. So we hope to hear from you all.

**Grantiau 2018-19:** Dyma ein trydedd flwyddyn a'n blwyddyn olaf yn canolbwyntio ar ODdn Cymru. Cawsom £4,000 gan Gronfa Marc Fitch ac rydym yn hynod ddiolchgar am hyn. Gobeithiwn glywed yn fuan am ganlyniad ein cais am grant i AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Rydym yn dal i ddefnyddio Cronfa Woodtiger a chronfa "Bagiau o Gymorth" Tesco ar y gweithgareddau perthnasol.

**2018-19 Grants**: This will be our third and final year concentrating on NE Wales. We have been awarded £4,000 by the Marc Fitch Fund, for which we are very grateful. We hope to soon hear the result of our grant application to the Clwydian Range & Dee Valley AONB. We continue to use the Woodtiger Fund & the Tesco "Bags of Help" fund for the activities for which they were awarded.

**Gweithgareddau Canghennau** yn dal i ffynnu wrth i grwpiau bychain o aelodau ddilyn eu diddordebau yn ymchwilio i hanes tai, cofnodi adeiladau a marciau anarferol mewn tai a.y.b. ar draws gogledd Cymru. Mae aelodau Meirionnydd wedi bod yn paratoi ar gyfer arddangosfa Fai yn Aberdyfi drwy ymchwilio yng Nghwm Maethlon; mae aelodau GDdn Cymru wedi bod yn dilyn hanesion tai y tai hynny a gofnodwyd yn bensaernïol neu a ddendro-ddyddiwyd ym mlwyddyn gyllidol olaf y prosiect. Mae prosiect hanes lleol Sir Gaernarfon / Tesco yn mynd o nerth i nerth.

**Branch activities** continue to flourish as small groups of members follow their interests in researching house histories, recording buildings and unusual marks in houses etc. across north Wales. Merioneth members have been preparing for the May exhibition in Aberdyfi of their research in Cwm Maethlon; NE Wales members are following up the house histories of houses architecturally recorded or "dendro-dated" in last financial year's project. The Caernarfonshire / Tesco local history project goes from strength to strength.



*Coedydd Tŷ Hyll ym Mai / Tŷ Hyll woods in May*



*Ymweliad â Thŷ Hyll / Tŷ Hyll visit*

**OS YDYCH Â DIDDORDEB MEWN HEN DAI** ond ddim eto yn aelod, pam na ystyriwch ymuno â'r Grŵp? Ysgrifennydd Aelodaeth yw Ms Zoë Henderson 01824 704404 membership@discoveringoldwelshhouses.co.uk. Am wybodaeth bellach cysylltwch â Margaret Dunn, yr Ysgrifenyddes secretary@discoveringoldwelshhouses.co.uk 01766 890550.

**IF YOU ARE INTERESTED IN OLD HOUSES** and are not already a member, why not consider joining the Group? The Membership Secretary is Ms Zoë Henderson membership@discoveringoldwelshhouses.co.uk 01824 704404. For further information contact Margaret Dunn, secretary@discoveringoldwelshhouses.co.uk 01766 890550.

**DIGWYDDIADAU CANGEN**: archebwch â chysylltydd cangen, fel arfer@ £2. Rydym yn hynod ddiolchgar i berchenogion tai am eu lletygarwch.

**CANGEN MÔN** Cyswllt: Peter Masters: 01758 750322 datingoldwelshhouses@gmail.com. Archebwch yn gynnar gan fod lle yn gyfyngedig; bydd manylion llawn yn cael eu hanfon at y rhai sy'n cael eu derbyn. **Llun 11 Mehefin**: 2 yp. Bu'n rhaid canslo'r ymweliad ar gyfer y dyddiad hwn oherwydd gwaeledd. **Llun 9 Gorffennaf**: 2 yp Ymweld â Phlas Penmynydd, ger Llangefni. Taith drwy'r tŷ, ei hanes a lluniaeth. Dathlu digwyddiadau'r flwyddyn; trafod a chynllunio gweithgareddau'r flwyddyn nesaf. **Awst:** Ni fydd cyfarfod.



*Sgwrs P30 Wrecsam / Wrexham U3A Talk*

**CANGEN ARFON A PHROSIECT HANES LLEOL TESCO** Cyswllt: Peter Masters: datingoldwelshhouses@gmail.com 01758 750322. **Mercher 6ed Mehefin:** 10yb-4yp Cofnodi Pensaernïol – diwrnod ymarferol yn Nhŷ Mawr ger Beddgelert o dan arweiniad Dr Martin Cherry a Peter Thompson. Nifer Mwyaf 12. **Iau 5ed Gorffennaf:** 2 yp Taith ym Meddgelert o dan arweiniad Margaret Dunn. Darganfyddwch sut y datblygodd y pentref hwn a sut i ymchwilio i gymunedau eraill. **Dydd Iau 2 Awst:** 7.30 yh, Neuadd y Pentref Beddgelert. Ymchwilio tŷ a'i drigolion: sesiwn ymarferol o dan arweiniad Margaret Dunn. **Dydd Iau 6 Medi:** 7.30 yh Neuadd y Pentref Beddgelert. Dathlu blwyddyn 1af prosiect Tesco gyda lluniaeth ac arddangosfeydd a rhannu cynlluniau'r dyfodol.

**CANGEN CONWY** Cyswllt: Tony Scharer: 01745 813027 tonyscharer@gmail.com. **Llun 11eg Mehefin:** ymweliad 11 yb i Gymryd Isaf, Henryd (neuadd-dŷ 3-uned, y rhan gynharaf tua 1500). Archebu'n angenrheidiol. **Gwen 13 eg Gorffennaf:** 9.30 Sgwrs gan Ray Castle ac Irene Pullen ar agweddau o hanes Tref Conwy. Lleoliad i'w gadarnhau. **Mawrth 18 Medi:** 10.00 yb Ymweld ag eglwysi Llanrhychwyn a Threfriw, y ddwy yn gysylltiedig â Llywelyn Fawr. Cyfarfod ym maes parcio Trefriw. **Mawrth 16 Hydref:** 2.00 yp Ymweld â Hen neuadd Cochwillan, Tal-y-bont, Bangor (diwedd y 15ed ganrif) a Melin Cochwillan (felin rawn fawr mewn cyflwr da ac yn perthyn i stad). **Mawrth 20 Tach:** 9.30 yb Pwyllgor Cangen i drafod ymchwil aelodau yn nhŷ Gill Jones, Llanddulas.

**CANGEN SIR DDINBYCH** Cyswllt: Janice Dale: 01490 440427 jadale22@hotmail.co.uk. Am fanylion pellach cysylltwch â Janice. **Mercher 6 Mehefin:** yn cyfarfod mewn tŷ ger

**BRANCH EVENTS**: book with branch contacts, usually @ £2. We thank house-owners very much for their hospitality.

**ANGLESEY BRANCH** Rep: Peter Masters: 01758 750322 datingoldwelshhouses@gmail.com. Please book early as places are limited; full details will be sent to those accepted. **Mon 11th June** The visit planned for this date has had to be cancelled because of illness. **Mon 9th July:** 2 pm Visit to Plas Penmynydd, near Llangefni. House tour, history & refreshments. Celebrate the year's events; discussion & planning for next year's activities. **August**: No meeting.



*Sgwrs am Frychdwn / Broughton Talk*

**CAERNARFONSHIRE BRANCH & TESCO LOCAL HISTORY PROJECT** Rep: Peter Masters: 01758 750322 datingoldwelshhouses@gmail.com. **Wed 6th June**: 10am-4pm Architectural Recording: a practical day at Tŷ Mawr near Beddgelert led by Dr Martin Cherry & Peter Thompson. Max 12. **Thu 5th July**: 2 pm Beddgelert guided walk led by Margaret Dunn. Find out how this village developed & how to research other communities. **Thu 2nd Aug**: 7.30 pm Beddgelert Village Hall. Researching a House & its Inhabitants: practical session led by Margaret Dunn. **Thu 6th Sept**: 7.30 pm Beddgelert Village Hall. Celebration of the 1st year of the Tesco project with refreshments and displays, and sharing future plans.

**CONWY BRANCH** Contact: Tony Scharer: 01745 813027 tonyscharer@gmail.com. **Mon 11th June:** 11 am visit to Cymryd Isaf, Henryd (3-unit hall house, earliest part c. 1500). Booking essential. **Fri 13th July:** 9.30 am Talk by Ray Castle & Irene Pullen on aspects of the history of Conwy Town. Venue tbc. **Tue 18 Sep**: 10.00 am Visit to Llanrhychwyn & Trefriw churches, both of which have connections with Llywelyn the Great. Meet in Trefriw car-park. **Tues 16 Oct**: 2.00 pm Visit to Cochwillan Old Hall, Tal-y-bont, Bangor (late 15th Century) & Cochwillan Mill (a well-preserved large estate corn-mill). **Tues 20 Nov**: 9.30 am Branch meeting to discuss members' research at Gill Jones's house, Llanddulas.

**DENBIGHSHIRE BRANCH** Contact: Janice Dale: 01490 440427 jadale22@hotmail.co.uk. For further details contact Janice. **Wed 6th June**: house near Corwen to practise architectural

Corwen i ymarfer cofnodi pensaernïol. Dim cyfarfodydd yng Ngorffennaf nac **Awst.**

**CANGEN MEIRIONNYDD** Cyswllt: John Townsend: 01341 430262 john@thetownsends.org.uk. **Iau 14 Mehefin** 2yp i 4yp: yn cyfarfod yn y Stafell Gymunedol yn Llyfrgell Dolgellau i drafod yr hyn y mae'r Gangen wedi ei wneud hyd yn hyn eleni a'r hyn y dymunem ei wneud am weddill y flwyddyn ac yn 2019. Un pwnc i'w drafod fydd prosiect y Grŵp ar adeiladau nenfforch. Mae'r rhain yn dyddio o'r 15fed a'r 17eg ganrif ac maent wedi eu gwasgaru yn anwastad ar draws gogledd Cymru gyda nifer sylweddol yn goroesi ym Meirionnydd. Gwelwyd nifer ohonynt yng ngogledd y sir yn y llyfr ar Dai Hanesyddol Eryri; yn fwy diweddar, mae'r grŵp wedi bod yn gweithio'n ddyfal ar Sir Ddinbych ac Edeirnion; felly mae'n bryd i ni weld beth sy'n weddill ym Meirionnydd. **Sul 15 Gorffennaf** 2.30 yp: digwyddiad Cymdeithasol yr haf Cangen Meirionnydd yng Nghesailgwm Mawr, Talcynhaeaf, Y Bont-ddu. Os am ddod gadewch i'r cydlynydd wybod o safbwynt arlwyo. Dim cyfarfod yn **Awst.**

**CANGEN GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU** Cyswllt: Margaret neu Wally Barr: magsbarr@yahoo.co.uk, wallybarr@yahoo.co.uk, y ddau ar 01745 888622. Archebwch ddigon ymlaenllaw gan fod lle yn gyfyngiedig. **Gwener 29 Mehefin** 2 yp: Ymweliad tŷ i'r Fron, Cwm, Sir y Fflint, 17 ganrif neu o bosib yn gynharach. **Mawrth 17 Gorff** 2 yp: cyfarfod o'r gangen yn Sant Winefrides, Gwespyr. Dim cyfarfod yn **Awst**.

**NODYN ATGOFFA**: Mae'r holl dai a grybwyllir yn y cylchlythyr hwn ac/neu sy'n gysylltiedig â DHDC yn eiddo preifat ac **nid ydynt ar agor** i'r cyhoedd.

**LLAWER O DDIOLCH** i Gangen Môn am eu cyfraniad at yr argraffiad hwn o'r cylchlythyr.

## RHOSOD TUDURAIDD

Roedd Tuduriaid Penmynydd ger Biwmares, Ynys Môn yn gefnogwyr i Dŷ Lancastr, ac yn dilyn llwyddiant Harri Tudur ym mrwydr Bosworth yn 1485 daeth Rhyfel y Rhosynnau i ben. Aeth yr olyniaeth i ddwylo Harri ac fe simentiodd ei hawl er braidd yn denau, i'r orsedd drwy briodi Elisabeth o Efrog, merch y Brenin Edward IV, Iorciad. Bu eu priodas yn 1486 yn fodd i uno'r ddau dŷ ymladdgar unwaith ac am byth. Tua'r adeg hwn y gwnaeth Harri (bellach yn Frenin Harri VII) gyflwyno'r Rhosyn Tuduraidd, a gyfunodd rosyn coch Lancastr a rhosyn gwyn Efrog.



*Rhosynnau Tuduraidd / Tudor roses*

Mae llyfrgell ar lein DHDC ar gyfer Ynys Môn yn cynnwys

recording. No meetings **July** or **August**.

**MERIONETH BRANCH** Contact: John Townsend: 01341 430262 john@thetownsends.org.uk. **Thurs 14th June** 2pm to 4pm: meeting in Community Room at Dolgellau Library to discuss what the Branch has done so far this year and what we may wish to take on for the rest of this year and into 2019. One of the subjects for discussion will be the Group's project on cruck buildings. These date from the 15th to the 17th centuries and are spread unevenly across North Wales with a substantial number surviving in Merioneth. The Snowdonia Houses book took in a number in the north of the county; more recently, the Group has done a lot on Denbighshire and Edeirion; now it would be good to look what's left in Merioneth. **Sunday 15th July**, 2.30 pm: Merioneth Branch Summer Social event at Cesailgwm Mawr, Taicynhaeaf, Bontddu. For catering purposes please let rep know if you intend to come. No meeting in **August**.

**NORTH EAST WALES BRANCH** Contact: Margaret or Wally Barr: magsbarr@yahoo.co.uk, wallybarr@yahoo.co.uk, both on 01745 888622. Please book well in advance as places are limited. **Fri 29th June** 2pm: house visit to Fron, Cwm, Flintshire, 17th century or possibly earlier. **Tues 17th July** 2pm: branch meeting at St Winefrides, Gwespyr. No meeting in **August**.

**REMINDER**: all the houses mentioned in this Newsletter and/or linked with DOWH are private property and are **NOT** open to the public.

**MANY THANKS** to the Anglesey Branch for their contribution to this issue of the newsletter.

## TUDOR ROSES

The Tudors of Plas Penmynydd near Beaumaris in Anglesey were supporters of the House of Lancaster, and following the success of Henry Tudor at the Battle of Bosworth in 1485 the Wars of the Roses came to an end. Henry secured the succession and cemented his rather tenuous claim to the throne by marrying Elizabeth of York, the daughter of the Yorkist King Edward IV. Their marriage in 1486 united the two warring houses once and for all, and it was around this time that Henry (now King Henry VII) introduced the Tudor Rose, which combined the red rose of Lancaster with the white rose of York.

The DOWH on-line library for Anglesey contains Dendro Reports and House Histories for several houses in Beaumaris, and in particular 32 Castle Street (known as 'Tudor Rose') and 34 Castle Street, 'Red Boat.' Both of these properties have carved roses either incorporated into their beams or as adornments to the roof-braces. In 'Tudor Rose' there is also a rose carving on a fireplace arch.

Both these properties have timbers with felling-dates dendro-dated to 1485/6 and 1483 respectively which fits in nicely with the end of the War but which also suggests that these houses were under construction or built before the Tudor reign was established.

Adroddiadau Dendro a Hanes Tai i sawl tŷ ym Miwmares, ac yn fwyaf arbennig i 32 Stryd y Castell (gyda'r enw 'Tudor Rose') a 34 Stryd y Castell, Red Boat. Mae'r ddau eiddo hyn â rhosynnau wedi eu cerfio a'u hymgorffori yn y trawstiau neu fel addurniadau i'r cyplau to. Yn 'Tudor Rose' gwelir hefyd gerflun o rosyn ar fwa'r lle tân.



*32 Stryd y Castell, Biwmares. 'Tudor Rose' (c1485/6) / 32 Castle Street, Beaumaris. 'Tudor Rose' (c1485/6)*

Mae'r ddau eiddo hyn â choed wedi eu dyddio a'u dendro ddyddio i 1485/6 a 1483 yn eu tro. Mae hyn yn cyd-fynd yn dda â diwedd y Rhyfel ond hefyd yn awgrymu fod y tai hyn yn cael eu hadeiladu neu wedi eu hadeiladu cyn sefydlu teyrnasiad y Tuduriaid.




*32 Stryd y Castell, Biwmares. 'Tudor Rose' (c1485/6) / 32 Castle Street, Beaumaris. 'Tudor Rose' (c1485/6)*

Felly a oedd y cerfiadau yn bod yn barod neu wedi eu hychwanegu yn hwyrach? Maent yn ymddangos yn rhai sengl, yn steil rhosod Tŷ Lancastr – nid rhosynnau uniad dwbl y Tuduriaid fel a welir.

Mae CBHC yn nodi'n syml taw 'Rhosynnau' ydynt; tra bod Cadw yn eu hanwybyddu .

Y cwestiwn yw, pa bryd y cafodd 32 Stryd y Castell yr enw 'Tudor Rose', a gan bwy? Pwy wnaeth adnabod y rhosynnau fel rhai Tuduraidd?




*32 Stryd y Castell, 'Tudor Rose': rhosyn Lancastr? (nodwedd heb ei dyddio) / 32 Castle Street, 'Tudor Rose': rose of Lancaster? (undated feature)*

So were the carvings already extant or later additions? They would appear to be single, in the style of House of Lancaster roses – not the double Tudor roses of unification, as can be seen.



*34 Stryd y Castell, 'Red Boat' (c.1483) / 34 Castle Street, 'Red Boat' (c.1483)*

The RCHAMW simply notes them as 'Roses'; Cadw ignores them.

The question is, when was 32 Castle Street named 'Tudor Rose,' and by whom? Who identified the roses as Tudor?

The tomb of Willam Bulkeley, Deputy Constable of Beaumaris Castle, and his wife Elin is to be found in the Church in Beaumaris. The tomb is dated *c*.1490, but he died in 1484, according to Griffith's *Pedigrees*. One biography states: William Bulkeley, a courtier from a Cheshire family, acquired an estate in north Wales under the Yorkists, by



*Beddrod Syr William Bulkeley a'i wraig Elin yn eglwys Santes Fair a Sant Nicolas, Biwmares / Tomb of Sir William Bulkeley and Elin his wife in St Mary's and St Nicholas' Church, Beaumaris © Jeff Buck (CC BY-SA 2.0)*

Gellir dod o hyd i feddrod William Bulkeley, Prif Gwnstabl Castell Biwmares, a'i wraig Elin yn yr Eglwys ym Miwmares. Y dyddiad ar y bedd yw c.1490, ond bu farw yn 1484, yn ôl *Achau* Griffith. Noda un bywgraffiad: Cafodd William Bulkeley, gŵr llys o deulu yn Swydd Gaer, stad yng Ngogledd Cymru o dan y Iorciaid, drwy brynu ym Miwmares, lle roedd yn Ddirpwy Gwnstabl y castell a thrwy etifeddu, o ganlyniad i briodi i mewn i deulu pwerus Griffith o Benrhyn. Mae un ach arall yn nodi fod William de Bulkeley o Cheadle, a anwyd yn 1418 a marw yn 1488 wedi mynd i Ynys Môn a'i fod yn Gwnstabl Biwmares yn 1440.

Yn 1370 cyflwynwyd y goler SS gan John o Gaunt. Daeth hon yn symbol o dŷ Lancastr ac roedd yn cael ei dyfarnu o'r dyddiad hwnnw hyd at 1460 ac eto o 1485 hyd y daeth i ben o dan Edward VI yn 1549. Mae delw William Bulkeley yn arddangos coler fel hon.

Dim ond 115 o ddelwau yn y DU gyfan sydd â SS coler, ac o'r rhain roedd 102 yn ddynion a 13 yn fenywod. Roedd llawer yn dilyn y Lancastriaid ym Miwmares yr adeg hwn, ac roedd y 'rhosynnau' fel petaent yn adlewyrchu hyn.

*Peter Masters, Cynrychiolydd Cangen Môn*

purchase at Beaumaris, where he was Deputy Constable of the castle, and by inheritance, through marriage into the powerful Griffith family of Penrhyn. Another Pedigree states William de Bulkeley of Cheadle (born about 1418 and died 1488) went to Anglesey and was Constable of Beaumaris in 1440.

In 1370 John of Gaunt introduced the collar of SS which became the symbol of the house of Lancaster. This was awarded from that date to 1460 and again from 1485 until discontinued by Edward VI in 1549. William Bulkeley's effigy displays such a collar.



*Delw o Syr William Bulkeley ar ei feddrod yn Eglwys y Santes Fair a Sant Nicolas, Biwmares / Effigy of Sir William Bulkeley on his tomb in St Mary's and St Nicholas' Church, Beaumaris*

Only 115 effigies in the entire UK have SS collars, of which 102 are men and 13 are ladies. Beaumaris at this time would have had a strong Lancastrian following, and the "roses" would seem to reflect this.

*Peter Masters, Anglesey Branch Rep*

TESCO Bags of Help
PURCELL
Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Clwydian Range and Dee Valley
MARC FITCH FUND
CBHC RCAHMW Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales
Woodtiger Fund
Parc Cenedlaethol Eryri Snowdonia National Park

# DARGANFOD HEN DAI CYMREIG
# DISCOVERING OLD WELSH HOUSES

*Dathlu Treftadaeth Cymru drwy astudio tai traddodiadol a bywydau'r bobl fu'n byw ynddynt.*

*Celebrating Welsh Heritage through the study of traditional houses and the lives of the people who lived in them.*

## CYLCHLYTHYR 26 *Medi 2018*
## NEWSLETTER 26 *September 2018*


**EIN GWEFAN** http://discoveringoldwelshhouses.co.uk yw prif sianel gyfathrebu'r Grŵp – defnyddiwch hi i weld mwy o fanylion am y digwyddiadau diweddar a'r rhai sydd ar ddod, ac i edrych ar ein llyfrgell sy'n cynyddu'n gyson ac ar nodweddion eraill.

**GAIR O'R GADAIR**

Wel, mae'r haf hirfelyn poeth yn dal ymlaen wrth i mi ysgrifennu, er rwyf yn meddwl i ni fod yn yn lwcus yng Ngogledd Cymru i osgoi rhai o'r profiadau eithafol a gafwyd yn ne ddwyrain Lloegr. Hwn yw cylchlythyr cyntaf Irene ar ei phen ei hun, ac rydym yn hynod ddiolchgar iddi am dderbyn y dasg hon, gan y gwyddom fod aelodau yn mwynhau darllen yr erthyglau diddorol a dysgu am y datblygiadau diweddaraf yn ein gwaith. Rydym bob amser yn chwilio am erthyglau byr sy'n gymorth i'n gwybodaeth am dai Gogledd Cymru a'u cefndir hanesyddol. Anfonwch unrhywbeth o werth at Margaret Dunn.

Mae Peter Masters newydd orffen ailwampio ein gwefan (gweler isod). Yn fy marn i ni fu'n edrych erioed cystal na chwaith mor hawdd ei defnyddio. Mae'n storfa enfawr o wybodaeth ac rydym yn hynod ffodus o gael arbenigedd Peter a'i waith caled. Y ffordd orau o ddiolch iddo yw drwy



***Mynedfa, Plas Penmynydd, Ynys Môn***

ei defnyddio'n amlach, a dweud amdani wrth ein ffrindiau. I'r rhai ohonoch sy'n teimlo ei bod yn rhy anodd, mae gen i gyngor syml.......mentrwch! Fe'i cewch ei bod yn sythweledol ac yn hawdd ei defnyddio.

Yn olaf ond eto o bwys rydym yn edrych ymlaen at eich gweld yn ein digwyddiad codi arian yr hydref ym Mhlas Penmynydd ar Hydref 6ed (manylion isod). Bydd cystadleuaeth gyda gwobrau yno i'r person sy'n dod o hyd i'r nifer mwyaf o farciau gwrachod a dirgelion eraill ar ffabrig a dodrefn y Plas. Yna bydd Eleanor Carpenter yn rhoi sgwrs ar y syniadau diweddaraf am y pwnc hwn, ac yn rhoi cyngor ar beth i edrych amdano yn eich tai chi ac yn y tai yr ydych yn ymweld â hwy. *Richard Cuthbertson, Cadeirydd*

**OUR WEBSITE** http://discoveringoldwelshhouses.co.uk is the Group's main channel of communication – please visit it to see details of recent and forthcoming events and to look at our growing library and other features.

**FROM THE CHAIR**

Well, the long hot summer continues as I write, although I think we have been lucky in North Wales to have avoided some of the extremes experienced in south-east England. This is Irene's first single-handed newsletter, and we are most grateful that she has taken on this task as there is no doubt that members enjoy reading the interesting articles and learning about the latest developments in our work. We are always looking for short articles that help our knowledge of North Wales houses and their histories. Please send anything you have to Margaret Dunn.

Peter Masters has just completed a re-vamp of our website (see below). I think it has never looked so good nor has been easier to navigate. It is a massive store of information and we are exceptionally fortunate to have Peter's expertise and hard work. The best way we can thank him is to use it more often, and tell our friends about it! For those who think it may be too difficult, I have this simple advice … just have a go! You will find it is intuitive and user-friendly.

Last but not least we look forward to seeing you at our autumn fundraising event at Plas Penmynydd on the 6th October (details below). We have a competition with prizes for the person who finds the most witch and other mystery marks on the fabric and furniture at the Plas. Then Eleanor Carpenter will give a talk on current thinking around this subject, with advice on what to look for in your own houses and the houses you visit.

*Richard Cuthbertson, Chairman*



***Mystery marks on screen near Mold***
***Marciau dirgelwch ar sgrîn ger yr Wyddgrug***

**NEWYDDION DIWEDDARAF**

**Digwyddiad Codi Arian** i'w gynnal ym Mhlas Penmynydd, Llangefni, Ynys Môn, LL777SH ar **Sadwrn Hydref 6ed 2018** o 2yp yn y pnawn. Mynediad y pen £10 (rhai dan 15 oed am ddim) tocynnau wrth y giât. Ceir arddangosfeydd, teithiau ymweld â thai, cystadleuaeth, lluniaeth ysgafn a chyfle i ymweld â'r gerddi. Bydd sgyrsiau gan Richard Cuthbertson am Blas Penmynydd a'i gysylltiadad â'r Tuduriaid cynnar a gan Eleanor Carpenter am olion hud, olion seiri coed a marciau dirgelwch eraill ar dai a dodrefn cynnar.

**Yn CBC Mehefin** diolchodd yr ymddiriedolwyr yn gynnes i Dr Tom David am ei waith rhagorol fel golygydd y Cylchlythyr a chroesawyd Dr Irene Brightmer fel ein golygydd newydd. Rhoddodd John Townsend ein Trysorydd, rybudd y bydd yn ymddeol ar 31 Mawrth 2019. Buasai ein Hysgrifenyddes, Margaret Dunn yn hoffi gwybod am unrhyw un a fuasai â diddordeb i ysgwyddo'r swydd bwysig . Mehefin nesaf bydd Tony Scharer yn ymddeol fel cynrychiolydd Cangen Conwy. Mae Gill Jones yn barod yn gweithredu fel cyswwlt cangen. Mae Sue Hurst yn garedig wedi cytuno i dderbyn archebion ar gyfer Cangen Ynys Môn. Ailenwyd Cangen Sir Gaernarfon fel Cangen Eryri ac mae'n gobeithio cael trefniadau archebu newydd yn fuan.

**Prosiect GDdn Cymru - Blwyddyn 2:** Mae nifer o gofnodion pensaernïol wedi eu cwblhau i dai allweddol a gellir gweld y rhain ar y wefan. Derbyniwyd yr holl adroddiadau a datganiadau ariannol gan y rhai a roddodd arian i ni yn 2017-18. Mae grantiau 2018-19 wedi dod o Gronfa Marc Fitch ac oddi wrth AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ac rydym yn hynod ddiolchgar am eu cefnogaeth Byddwn yn gwneud ceisiadau am grantiau eraill yn fuan.

**Prosiect GDdn Cymru - Blwyddyn 3:** Bu ymweliadau pellach i dai ers y Pâsg, ac yn Awst aseswyd a samplwyd gan arbenigwyr o Labordy Dendrocronoleg Rhydychen dai dewisol. Rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar dai nenffyrch a thai lloriog cynnar.

**Cronfa Eryri Parc Cenedlaethol Eryri** Mae'r gronfa hon yn dal i gefnogi gwaith ym Meirionnydd a samplwyd dau dŷ yn Awst. Roedd arddangosfa fis Mai yn Nhywyn, ac a drefnwyd gan Gangen Meirionnydd, yn llwyddiant mawr, diolch i dîm o wirfoddolwyr parod. Yn Awst roeddem yn rhannu stondin ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd yn Sioe Sirol Meirionnydd a hefyd yn Sioe Amaethyddol Ynys Môn.

Mae grant **Cronfa Gymunedol 'Bagiau o Gymorth' Tesco** yn dal i gefnogi digwyddiadau misol hyd at ddechrau Hydref.



***Arddangosfa fis Mai yn Nhywyn May exhibition in Tywyn***

**NEWS UPDATE**

**A Fundraising Event** will be held at Plas Penmynydd, Llangefni, Anglesey, LL77 7SH on **Saturday 6th October 2018** from 2 pm. Entry £10 per head (under 15s free), tickets at the gate. There will be displays, house tours, a competition, light refreshments and the opportunity to visit the gardens. Talks from Richard Cuthbertson about Plas Penmynydd and its links with the early Tudors, and from Eleanor Carpenter about magical, carpenters' and other mystery marks on early houses and furniture.

**At the June AGM** the trustees warmly thanked Dr Tom David for his excellent work as Newsletter editor and welcomed Dr Irene Brightmer as our new editor. John Townsend, our Treasurer, gave notice that he will be standing down on 31 March 2019. Our Secretary, Margaret Dunn, would like to know of anyone who would be interested in taking over this important role. Next June Tony Scharer will retire as representative of the Conwy Branch. Gill Jones has already taken over as the branch contact. Sue Hurst has kindly agreed to take over bookings for the Anglesey Branch. The Caernarfonshire Branch is renamed the Snowdonia Branch and hopes to have new booking arrangements soon.

**NE Wales Project Year 2**: Several architectural records have been completed for key houses and these can be seen on the website. All reports and financial statements were accepted by our 2017-18 funders. Grants for 2018-19 have been obtained from the Marc Fitch Fund and the Clwydian Range and Dee Valley AONB, and we are very grateful for their support. We shall apply for other grants shortly.

**NE Wales Project Year 3:** Further houses have been visited since Easter, and the Oxford Dendrochronology Lab experts assessed and sampled selected houses in August. Cruck and early storeyed houses continue to be our main focus.



***Count the crucks Cyfrifwch y nenffyrch***

**The Snowdonia National Park Eryri Fund** continues to support work in Merioneth and two houses were being sampled in August. The May exhibition in Tywyn, organised by the Merioneth Branch, was a great success, thanks to a team of willing helpers. In August we were part of the Gwynedd Archaeology Trust's stand at both the Merioneth County Show and the Anglesey Agricultural Show.

**The Tesco 'Bags of Help' Community Fund** grant continues to support monthly events until early October. Thanks to this grant it has been possible to introduce many more people, including local schoolchildren, to their Welsh heritage through studying houses (see article below).

O ganlyniad i'r grant hwn llwyddwyd i gyflwyno llawer mwy o bobl, gan gynnwys plant ysgol lleol i'w treftadaeth Gymreig drwy astudio tai (gweler erthygl isod).

**Mae Outreach** yn dal i roi sgyrsiau i gymunedau ar draws Gogledd Cymru a hefyd drefnu ymweliad tŷ i Blas Uchaf ar gyfer Cymdeithas Hanesyddol Caerwys.

**Ailgynllunio Gwefan** (Nodyn gan Peter Masters, ein swyddog gwefan a TG.)

Bydd defnyddwyr rheolaidd ein gwefan wedi sylwi fod newidiadau. Mae ffasiynau yn amrywio o ddydd i ddydd, ac mae'r rhyngrwyd yn newid yn gyson gyda llwyfannau newydd, sgriniau mwy a mwy o amrywiaethau o dabledi a ffonau clyfar. Pan gynlluniwyd y safle yn wreiddiol doedd neb wedi rhagweld y newid i ffonau symudol a thabledi.

O gofio'r ffactorau hyn, a hefyd ystyried gwefannau eraill, roeddem yn sylweddoli fod ein safle ni yn dyddio ac yn colli sglein. Felly ymgymerwyd ag adolygiad llawn ac archwiliwyd bob tudalen. Edrychwyd ar y cynnwys, y logo, y palet lliw, typograffi, delweddaeth, eiconograffeg, ayyb. Gwnaethom newid y strwythyr llywio er mwyn gwella llif y defnyddwyr a dileuwyd tudalennau diangen pan fo'n addas. O ganlyniad cafwyd safle newydd glân yn fwy addas ar gyfer meintiau a chydraniadau amrywiol sgriniau, yn llwyttho'n gyflymach a gyda gwell llywio a dilyniant mewn dylunio rhwng adrannau. Gwelwch hyn yn www.discoveringoldwelshhouses.co.uk

**Gweithgareddau Cangen** Maent yn parhau i ffynnu wrth i aelodau ddilyn eu diddordebau wrth ymweld â thai, ymchwilio i hanes tai, cofnodi adeiladau a'r marciau anghyffredin a welir arnynt.

**OS YDYCH Â DIDDORDEB MEWN HEN DAI** ond ddim eto yn aelod, pam na ystyriwch ymuno â'r Grŵp? Ysgrifennydd Aelodaeth yw Ms Zoë Henderson 01824 704 404 membership@discoveringoldwelshhouses.co.uk Am wybodaeth bellach cysylltwch â Margaret Dunn, yr Ysgrifenyddes secretary@discoveringoldwelshhouses.co.uk 01766 890 550.

**DIGWYDDIADAU CANGEN**

Archebwch â chysylltydd cangen, fel arfer £2. Rydym yn hynod ddiolchgar i berchenogion tai am eu lletygarwch.

**CANGEN MÔN.** Cysylltwch â Sue Hurst 01407 459 319 anglesey@discoveringoldwelshhouses.co.uk. Archebwch yn gynnar drwy fod lle yn brin; anfonir manylion at y rhai a gafodd eu derbyn.

**Mer 19 Medi** 2yp Ymweliad i Garreglwyd, Llanfaethlu lle bydd Tom Carpenter yn siarad am y tŷ a'i deuluoedd.

**Gwen 26 Hyd** 2yp Ymweld ag Eglwys Biwmares gyda sgwrs gan y Parch. Neil Fairlamb, y Rheithor, ar deulu Bulkeley a Biwmares.

**Iau 15 Nov** 2yp Ymweld â Bryndu, Llanfechell, lle byd Dr a Mrs Grove-White yn egluro'r tý a'i deuluoedd.

**Merch 5 Rhag** 2yp Mynd i'r Archifau yn Llangefni i gael sgwrs a chyfle i ymchwilio.

**PROSIECT HANES LLEOL CANGEN ERYRI A TESCO** Cysyllter â Peter Masters discoveringoldwelshhouses@gmail.com 01758 750 322

**Iau 6 Medi** 7.30yh Neuadd Gymunedol Beddgelert. Dathlu blwyddyn gyntaf Prosiect Hanes Lleol Beddgelert, a noddir gan Gronfa Gymunedol 'Bagiau o Gymorth' Tesco. Adolygu'r prosiect gyda lluniaeth, arddangosfeydd a chynlluniau at barhau'r Prosiect yn 2018-19 fel Cangen Eryri o GDHDC.

**Outreach** continues with talks to communities across North Wales and a house visit arranged to Plas Uchaf for the Caerwys Historical Society.

**Website redesign** (A note from Peter Masters, our webmaster and IT officer.)

Regular visitors to our website will have noticed changes. Fashions come and go, and the internet is constantly changing with new platforms, larger screens and more varieties of tablets and smart phones. When the site was originally designed we did not anticipate the move to mobile phones and tablets.

Taking these factors into account, and with a long look at other websites, we saw that our site was becoming outdated and a little stale. So a full review was undertaken and every page examined. We looked at the content, the logo, the colour palette, typography, imagery, iconography etc. We altered the navigation structure for improved user flow and removed unnecessary pages where appropriate.

The result is a new cleaner-looking site, more adaptable to varied screen sizes and resolutions, faster-loading, with better navigation and continuity in design between sections. See for yourself at www.discoveringoldwelshhouses.co.uk

**Branch activities** continue to flourish as members follow their interests in visiting houses, researching house histories, recording buildings and the unusual marks found on them.

**IF YOU ARE INTERESTED IN OLD HOUSES** and are not already a member, why not consider joining the Group? The Membership Secretary is Ms Zoë Henderson membership@discoveringoldwelshhouses.co.uk 01824 704 404. For further information contact Margaret Dunn, secretary@discoveringoldwelshhouses.co.uk 01766 890 550.

**BRANCH EVENTS**

Book with branch contacts, usually £2. We thank house-owners very much for their hospitality.

**ANGLESEY BRANCH.** Contact Sue Hurst 01407 459 319 anglesey@discoveringoldwelshhouses.co.uk Please book early as places are limited; details will be sent to those accepted.

**Wed 19 Sept** 2pm Visit to Carreglwyd, Llanfaethlu, where Tom Carpenter will speak about the house and its families.

**Fri 26 Oct** 2pm Visit to Beaumaris Church, with talk by Rev Neil Fairlamb, Rector, on the Bulkeley family and Beaumaris.

**Thurs 15 Nov** 2pm Visit to Bryndu, Llanfechell, where Dr and Mrs Grove-White will explain the house and its families.

**Wed 5 Dec** 2pm Visit to the Archives, Llangefni for a talk and an opportunity to do research.



***Berain, home of Catrin/cartref Catrin***

**Iau 4 Hyd** 2yp Ymweld â Hafod Lwyfog (16G), Nant Gwynant.
**Merch 21 Tach** 7.30yh Sgwrs yn Neuadd Bentref Nant Gwynant ar 'Catrin o Ferain-Mam Cymru' gan Helen Williams-Ellis. Cyfarfod ar y cyd â Chymdeithas Hanes Beddgelert
**Llun 3 Rhag** 9.30yb-4yp Archifdy Gwynedd, Caernarfon. Gweithdy yng ngofal J.Dilwyn Williams ar sut i ddefnyddio archifau ar gyfer ymchwil i hanes tai.

**CANGEN CONWY.** Cyswllt Gill Jones 01492 517 330 gwylan16@gmail.com
**Maw 18 Medi** 10yb Ymweld ag eglwysi Llanrhychwyn a Threfriw, a'r ddwy ohonynt yn gysylltiedig â Llywelyn Fawr. Cyfarfod ym maes parcio Trefriw am 10yb.
**Maw 16 Hyd** 2yp Ymweld â Hen Neuadd Cochwillan, Tal-y-bont, Bangor (15G hwyr) a Melin Cochwillan (melin flawd stad fawr, mewn cyflwr da). Archebwch drwy Gill Jones.
**Maw 20 Tach** 10yb Plas Tirion. Cyflwyniad gan Gill Jones ar sut i ymchwilio i hanes tý.
**Maw 15 Ion** 9.30yb Cyfarfod Cangen yn nhý Ann Morgan.
**Maw 12 Chwe** 2yp Ymweliad dan arweiniad i Gadeirlan Llanelwy. Cyfarfod yn y maes parcio.

**CANGEN SIR DDINBYCH.** Cyswllt Janice Dale 01490 440 427 jadale22@hotmail.co.uk
**Mer 12 Medi** Ymweliad i Llannerch, ger Llandrillo.
**Mer 10 Hyd** 2yp Llyfrgell Llangollen i ddefnyddio cyfrifiaduron a data ar-lein (8 cyfrifiadur wedi eu harchebu).
**Mer 7 Tach** 2yp Ymweliad i Dy'n Llwyn yn Llangar ger Corwen.
**Rhagfyr** Eto i'w benderfynu.

**CANGEN MEIRIONNYDD.** Cyswllt John Townsend 01341 430 262 john@thetownsends.org.uk
**Llun 17 Medi** 2yp Ymweld ag Eglwys Sant Madryn, Trawsfynydd, lle ceir gwaith cerrig a choed. Hefyd i Riw-goch, Bronaber (1610) lle ceir rhai arweddion gwreiddiol, yn cynnwys y porth. Manylion pellach ar yr adeiladau gan John.
**Hydref** Cwrs diwrnod ar 'Camau sylfaenol i gofnodi adeiladau' gyda Martin Cherry a Peter Thompson. Da o beth fuasai dod â phensilau a phapur graff gyda chi. Manylion pellach, yn cynnwys lleoliad ac amser, gan John Townsend.
**Mer 7 Tach** 10yb-12.30 yn Stafell Gymunedol Llyfrgell Dolgellau. Cyflwyniad i Balaeontoleg gyda Dr Ania Skarzynska. 'Fedra i ddim darllen hwnna! O medri, fe fedri' Steiliau o lawysgrifau yng nghanrifoedd 16-18.
2-4yp Cymorth ymarferol gyda'ch dogfennau chi.
**Mer cyntaf o bob mis 9.30yb hyd at 12.30** Mae Archifdy Dolgellau ar agor i'w ddefnyddio gan aelodau GDHDC. Ewch i mewn drwy'r fynedfa ochr drwy fod yr Archifdy ar gau i'r cyhoedd ar y diwrnod hwnnw.

**CANGEN GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU.** Cyswllt Margaret neu Wally Barr 01745 888 622 magsbarr@yahoo.co.uk wallybarr@yahoo.co.uk Archebwch ddigon ymlaenllaw gan fod lle yn gyfyngedig.
**Maw 18 Medi** 2yp Llyfrgell Gladstone, Penarlâg. Sgwrs ar astudio hen dai gan Martin Cherry, Cyfarwyddwr Ymchwil GDHDC.
**Mer 24 Hyd** 2yp Ymweld â Phlas Uchaf, ger Rhuthun. Neuadd-dý o'r 16G.
**Tachwedd** Ymweld â'r Ganolfan Adeiladu Naturiol, Plas Tirion ger Llanrwst, ar gyfer gweithdy ar dechnegau adeiladu traddodiadol. Dyddiad i'w benderfynu.

**SNOWDONIA BRANCH & TESCO LOCAL HISTORY PROJECT.** Contact Peter Masters 01758 750 322 discoveringoldwelshhouses@gmail.com
**Thurs 6th Sept** 7.30pm Beddgelert Community Hall. Celebration of the first year of Beddgelert Local History Project, funded by the Tesco 'Bags of Help' Community Fund. Project review with refreshments, displays and plans for continuation of the Project in 2018-19 as the Snowdonia Branch of the DOWHG.
**Thurs 4 Oct** 2pm Visit to Hafod Llwyfog (16 C), Nantgwynant.
**Weds 21 Nov** 7.30pm Talk in Nantgwynant Village Hall on 'Catrin of Berain – Mother of Wales' by Helen Williams-Ellis. Joint meeting with Cymdeithas Hanes Beddgelert.
**Mon 3 Dec** 9.30am–4pm Gwynedd Record Office, Caernarfon. Workshop with J. Dilwyn Williams on using the archives for house history research.

**CONWY BRANCH.** Contact Gill Jones 01492 517 330 gwylan16@gmail.com
**Tue 18 Sep** 10am Visit to Llanrhychwyn & Trefriw churches, both of which have connections with Llywelyn the Great. Meet in Trefriw car-park at 10am.
**Tues 16 Oct** 2pm Visit to Cochwillan Old Hall, Tal-y-bont, Bangor (late 15C) & Cochwillan Mill (a well-preserved large estate corn-mill). Please book with Gill Jones.
**Tues 20 Nov** 10am Plas Tirion. Presentation by Gill Jones on how to research the history of a house.
**Tues 15 Jan** 9.30am Branch meeting at Ann Morgan's house.
**Tues 12 Feb** 2pm St Asaph Cathedral guided visit. Meet in the car park.



***Plas Tirion, Llanrwst***

**DENBIGHSHIRE BRANCH.** Contact Janice Dale 01490 440 427 jadale22@hotmail.co.uk
**Wed 12 Sept** 2pm Visit to Llanerch, near Llandrillo.
**Weds 10 Oct** 2pm Llangollen Library for hands-on with computers and accessing on-line data (8 computers booked).
**Weds 7 Nov** 2pm Visit to Tyn Llwyn at Llangar near Corwen.
**December** TBA.

**MERIONETH BRANCH.** Contact John Townsend 01341 430 262 john@thetownsends.org.uk
**Mon 17 Sept** 2pm Visit to St Madryn Church Trawsfynydd with medieval masonry and timber, and Rhiw-goch, Bronaber (1610) which retains some original features, including a gatehouse. Further details on the buildings from John Townsend.

**COFIWCH fod yr holl dai y sonnir amdanynt yn y Cylchlythyr hwn ac/neu sy'n gysylltiedig â GDHDC yn eiddo preifat ac felly NID ydynt ar agor i'r cyhoedd. Gall aelodau gymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiad mewn unrhyw gangen, yn ogystal ag yn eu cangen eu hunain. Holwch gysylltydd y gangen dan sylw.**



*Plant yn adeiladu tý nenfforch*
*Children construct a cruck house*

**A PROSIECT HANES LLEOL wedi ei hariannu gan grant 'BAGIAU O GYMORTH' TESCO.**

***June 3rd (Weds)*** *Brief Parishes Project meeting followed by a full recording training day at a house in Llanelltyd. This is a cruck-framed farmhouse, now dilapidated and used for storage. It was 'discovered' as part of the Parishes Project for Llanelltyd - unlisted, not on Coflein, it is an 'unknown' peasant farmhouse, probably of the 16th century. As such we think it should be properly recorded and can take the opportunity of offering training to anyone who would like to try their hand — measuring, sketching, photographing, note-taking — all materials will be supplied. **Please note, numbers will have to be restricted because of the nature of the site. It's essential to know numbers beforehand and it is possible that the date in June may change. Please contact Martin three weeks in advance if you wish to attend.***

*Please let Martin know in good time if you propose to attend the documentary and/or building recording workshops (0771 6993652 or 01341 423517). John Townsend is still the coordinator for the Parishes Project meetings.*

*Members of the Merioneth Branch also meet on the **first Wednesday of the month** between 9.30am and 12.30pm at Dolgellau Archives. Currently the focus is on the DOWHG Parishes Project (finding pre-1700 houses that have not already come to light). Llanelltyd, Llandecwyn and Talyllyn have been done as a table-top exercise and members are now visiting the houses found. Anyone interested in this project, which can be undertaken at home, please contact John Townsend
john@thetownsends.org.uk.*

***NORTH EAST WALES BRANCH.*** *Contact Margaret or Wally Barr 01745 888 622 magsbarr@yahoo.co.uk wallybarr@yahoo.co.uk. Essential to book in advance.*

***January 21st (Tues) 2pm*** *Llanasa Village Hall, meeting and talk entitled "Getting Some Early Knights" by Peter Masters.*



Caerfallen (dated 1559/60) near Ruthin, last winter
Caerfallen (dyddiedig 1559/60) ger Rhuthun, y gaeaf diwethaf

***February 24th (Mon) 2pm*** *Meeting and visit to Caerfallen, Ruthin (dated to 1559/60)*

*gwaith trwsio Adeiladau Ffram Goed, Llyfrgell Gladstone, Penarlâg.*

**CANGEN ERYRI.** *Cyswllt: Ann Alston*
*snowdonia@discoveringoldwelshhouses.co.uk*
*Archebwch ar-lein:*
*http://discoveringoldwelshhouses.co.uk/english/visits.html.*
*Peter Masters: 01758 750322 (Cofiwch archebu'n gynnar)*

*Mae Cangen Eryri wedi dechrau gweithio ar y Project Plwyfi gydag ambell i ganlyniad calonogol. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol yn Archifdy Gwynedd, Caernarfon. Daeth llawer i'r cyfarfod ac roedd yr aelodau'n frwdfrydig. Mae sawl plwyf bellach wedi eu cwblhau a gobeithiwn drefnu cyfarfod arall yn gynnar yn y flwyddyn newydd er mwyn dadansoddi'r darganfyddiadau hyd yma.*
***27 Ionawr (dydd Llun) 2yp*** *Ymweliad â Thy'n Twr, Bethesda. Tŷ nen-fforch, efallai yn gyn-gartref i'r Archesgob John Williams. Gwisgwch esgidiau priodol i'r tŷ. Lluniaeth ysgafn. £2 y pen. Dim mwy na 15.*
***19 Chwefror (dydd Mercher) 7.30yh*** *yn Neuadd Gymuned Nantgwynant.* ***"****The Casson Family in North Wales, a story of slate and more", sgwrs a lluniau gan Dr Diana Devlin, awdur a darlithydd. Bydd ei llyfr diweddar ar y pwnc hwn ar werth @ £9.95. Lluniaeth ysgafn. £2 y pen.*
***24 Mawrth (dydd Mawrth) 2yp*** *Ymweliad â Rhydolion****,*** *ger Llangïan. Ffermdy boneddigion, cartref y Comisiynydd Piwritan Jeffrey Parry (m 1685). Gwisgwch esgidiau priodol i'r tŷ. Lluniaeth ysgafn. £2 y pen. Dim mwy na 15.*
***4 Ebrill (dydd Sadwrn) 2yp*** *Ymweliad â Ffridd Isaf, Rhyd-ddu. Tŷ Eryri dyddiedig 1599/1600. Edrych ar hen ysguboriau a dau gyfnod y ffermdy. Dewch ag esgidiau i newid iddyn nhw. Lluniaeth ysgafn ar gael. Dim mwy na 10. £2 y pen.*
***5 Mai (dydd Mawrth) 2yp*** *Ymweliad â Nanhoron, ar Benrhyn Llŷn. Gwisgwch esgidiau priodol ar gyfer y tŷ. Lluniaeth ysgafn. £5 y pen. Dim mwy na 20.*
***Prynhawniau Mercher***
*Project Plwyfi – Gellir trefnu gweithdai yn ôl yr angen yn Ystafell Gymunedol Swyddfa Gofnodi Caernarfon ar brynhawniau Mercher i helpu'r sawl sy'n ymgymryd ag ymchwil hanesyddol ar gyfer y Project Plwyfi. Cysylltwch â Peter Masters os hoffech gael cymorth.*



*Ffridd Isaf, tŷ Eryri (dyddiedig 1699/1600), Rhyd-ddu*
*Ffridd Isaf, Snowdonia house (dated 1699/1600), Rhyd-ddu*

***March 23rd (Mon) 2pm*** *Meeting and DVD on the restoration and repair of Timber-Framed Buildings, Gladstone's Library, Hawarden.*

**SNOWDONIA BRANCH.** *Contact: Ann Alston*
*snowdonia@discoveringoldwelshhouses.co.uk Book online: http://discoveringoldwelshhouses.co.uk/english/visits.html.*
*Peter Masters: 01758 750 322 (Please book early)*

*The Snowdonia Branch has begun work on the Parishes Project with some promising results. An initial meeting was held in the Gwynedd Archives, Cearnarfon. This was well attended and members were enthusiastic. Several parishes have now been completed and we hope to organise another meeting early in the new year to analyse the findings so far.*
***Jan 27th (Mon) 2pm*** *Visit to Ty'n Twr, Bethesda. Cruck-framed house, reputed home of Archbishop John Williams. Bring indoor shoes. Light refreshments. £2 per head. Max 15.*
***Feb 19th (Weds) 7.30 pm*** *in Nantgwynant Community Hall.* ***"****The Casson Family in North Wales a story of slate and more", an Illustrated talk by Dr Diana Devlin, writer and lecturer. Her recent book on this subject will be on sale @ £9.95. Light refreshments. £2 per head.*



*Ty'n Twr, tŷ nen-fforch, Bethesda*
*Ty'n Twr, cruck-framed house, Bethesda*

***March 24th (Tues) 2pm*** *Visit to Rhydolion, near Llangian. Gentry farmhouse, home of famous Puritan Commissioner Jeffrey Parry (d.1658). Bring indoor shoes. Light refreshments. £2 per head. Max 15.*
***April 4th (Sat) 2pm*** *Visit to Ffridd Isaf, Rhyd-ddu. Snowdonia house dated to 1599/1600. Viewing old barns and two phases of the farmhouse. Bring change of shoes. Light refreshments available. Max 10. £2 per head.*
***May 5th (Tues) 2pm*** *Visit to Nanhoron. Bring indoor shoes. Light refreshments. £5 per head. Max 20.*

***Wednesday Afternoons***
*Parishes Project - Workshops to help those undertaking research for the Parishes Project could be arranged in Caernarfon Record Office Community Room on Wednesday afternoons, as needed. Contact Peter Masters if you would like help.*

## GAN OLYGYDD Y CYLCHLYTHYR

*Yn y rhifyn diwethaf soniodd ein Cadeirydd am lyfr 'gwych' Tom Lloyd o 1986, Lost Houses of Wales. Ydy, mae yn gofnod hyfryd, ond mae'n drist edrych drwyddo pan welwch chi'r lluniau sy'n rhoi cipolwg ar yr hyn sydd wedi diflannu am byth: dros 300 o dai gyda'u gerddi a'u parciau sydd wedi diflannu yn yr 20fed ganrif.*

*Ac yn eu cyfarfod ym mis Mawrth mae Cangen Ynys Môn yn mynd i gynnal sgwrs ar rai o dai coll Ynys Môn.*

*I godi calon yn wyneb yr holl golledion hoffwn sôn am lyfr arall yn y dosbarth hwn sy'n darparu rhybudd am adeiladau sydd mewn perygl, ond sydd hefyd yn darparu her wrth roi rhywfaint o obaith i ni. Adolygiad o feddiannau treftadaeth ledled Cymru sy'n dal ar eu traed ond sydd wedi eu hanghofio neu eu gadael yn wag ers degawdau yw Forgotten Welsh Houses gan Michael Tree a Mark Baker (2008). Hanfod y llyfr yw gobaith yr awduron wrth iddyn nhw edrych ar achosion unigol ac awgrymu posibiliadau adfer. Mae'r prif awdur wedi achub dau feddiant pwysig yn ei ranbarth ei hun. Pan ymwelais ag un o'r rhain am y tro cyntaf roedd yn ofynnol i ni wisgo hetiau caled. Ond ddegawd yn ddiweddarach cafwyd portread o'r stad raglywiaeth honno ger Llanrwst yn "Country Life" o dan y teitl 'Back from the Brink', gyda lluniau lu mewn lliw llawn!*




*Man cychwyn y project a ddaeth yn llyfr y pen draw oedd cais i gynghorau sir Cymru am restrau o'u meddiannau treftadaeth oedd mewn perygl: yng Ngwynedd yn unig, ac eithrio Parc Cenedlaethol Eryri, roedd dros 350, gan ddangos graddfa dychrynllyd y sefyllfa. Ymysg y rhain roedd 24 ar y rhestr Seren Gradd 1 neu Gradd 2; rhestrwyd y gweddill fel Gradd 2. Mewn gwirionedd, roedd oddeutu 17% o holl adeiladau rhestredig Cymru mewn perygl bryd hynny, ffigur sy'n annhebygol o fod wedi newid yn arwyddocaol ers 2008.*

*Mae'r awduron yn cyflwyno persbectif hanesyddol gyda dadansoddiad o'r man cychwyn a'r prosesau sydd wedi peri'r dirywiad yma yn ein treftadaeth adeiledig dros y degawdau. Disgrifir a darlunnir saithdeg o feddiannau, a rhoir tudalen ddwbl i bob un, gan drafod ei broblemau a chynnig syniadau a phosibiliadau ar gyfer y dyfodol. Cynhwysir oddeutu 50 arall mewn Rhestr, gyda darlun, enw'r awdurdod lleol priodol, y categori rhestru a disgrifiad byr.*

*Tynnwyd llawer o'r lluniau'n arbennig ar gyfer y llyfr; draw eraill o'r archifau sy'n dangos y tai yn eu holl ogoniant. Ond mae'r cwbl mewn du a gwyn sy'n creu teimlad o dristwch sy'n briodol i bwnc y llyfr. Serch hynny, mae ambell stori o*

## FROM THE NEWSLETTER EDITOR

*In the last issue our Chairman mentioned Tom Lloyd's 'wonderful' 1986 book "Lost Houses of Wales". Yes, it is a wonderful book and a valuable record, but the book makes very sad reading when you look at the illustrations giving a glimpse of what has gone forever: over 300 houses with their gardens and parks disappeared from Wales in the 20C.*

*And at their March meeting the Anglesey Branch is to have a talk on some of the lost houses of Anglesey.*

*To counteract the gloom of such losses I want to mention another book in this genre which provides a warning about buildings 'at-risk', but also provides a challenge while giving us some hope. "Forgotten Welsh Houses" by Michael Tree and Mark Baker (2008) is a review of heritage properties across the Principality which are still standing but have been forgotten and/or abandoned for decades. The essence of the book is the optimism of the authors as they look at individual cases and suggest renovation possibilities. The main author has notably rescued two important properties in our own region. When I first visited one of these we had to wear hard hats. But a decade or so later that same regency estate near Llanrwst was featured in "Country Life" under the title 'Back from the Brink', profusely illustrated in glorious colour!*

*The starting point for the project that became the book was an approach to Welsh county councils requesting lists of their heritage properties at-risk: in Gwynedd alone, excluding the Snowdonia National Park, there were over 350, revealing the shocking scale of the situation. These included 24 with Grade One or Grade Two-Star listings, the rest were listed as Grade Two. In fact, approximately 17% of all listed buildings in Wales were then at-risk, a figure that is unlikely to have altered significantly since 2008.*

*The authors present a historical perspective with an analysis of the origins and processes which have caused this decline in our built heritage over the dcades. Seventy properties are then described and illustrated, with a double page given to each, discussing its problems and offering thoughts and possibilities for the future. A further fifty or so are included in a Gazeteer, each with an illustration, the name of the relevant local authority, the listing category and a brief description.*

*Many of the illustrations were taken especially for the book, others are from the archives showing the houses in their former glory. But all are in black and white, and with the sepia cover create for me an atmosphere of melancholy which suits the book's subject. But happily there are success stories which provide the incentive for the would-be rescuer 'in search of their own paradise'. And there are sections on how to go about the task, not forgetting the 'Pitfalls and Failings', all written with the authority of a practitioner.*

*I know that in the case of some of the buildings included for our region the opportunities have been lost, and properties are now in an even graver state than when the book was written. But I am happy to see that some of the book's entries have been removed from the at-risk register and have been resurrected to become assets to local communities, enhancing the landscape and adding to our common heritage.*

*And as our Chairman previously commented, DOWHG has its own contribution to make to this task. Our identification and recording efforts 'make it less likely that even more wonderful houses and their features will be lost simply through ignorance of their importance'. That is our challenge.*

*lwyddiant sy n darparu r ysgogiad i r achubwr sy n chwilio am ei baradwys ei hun . Ac mae adrannau hefyd ar sut i fynd i r afael r gorchwyl, heb anghofio r Problemau a r Methiannau , i gyd wedi eu hysgrifennu gydag awdurdod unigolyn sydd wedi cyflawni gwaith ymarferol ei hun.*

*Yn achos rhai o r adeiladau sydd wedi eu cynnwys yn ein rhanbarth ni, gwn fod cyfleoedd wedi eu colli, a bod y meddiannau erbyn hyn mewn cyflwr llawer gwaeth na phan ysgrifennwyd y llyfr. Ond rydw i n falch o weld bod rhai o r tai yn y llyfr wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr mewn-perygl ac wedi eu hadfer i ddod yn asedau i gymunedau lleol, ac yn gwella r tirlun ac yn ychwanegu at y dreftadaeth yr ydym i gyd un ac oll yn ei rhannu.*
*Ac, fel y dywedodd ein Cadeirydd yn gynharach, mae gan GDHDC ei gyfraniad ei hun i w wneud i r gorchwyl hwn. Mae ein hymdrechion adnabod a chofnodi yn golygu ei fod yn llai tebygol y bydd mwy o dai hyfryd a u nodweddion yn cael eu colli drwy anwybodaeth am eu pwysigrwydd . Dyna ein her ni.*



*A historic farmhouse with a Jacobean staircase and a 1652 datestone in Brynford, Flintshire is on the at-risk register and is continuing to deteriorate. (Grade Two listed in 1962)*
*Mae ffermdy hanesyddol gyda grisiau Jacobeaidd a charreg dyddiad 1652 ym Mrynffordd, Sir Y Fflint, ar y gofrestr mewn-perygl ac yn parhau I ddirywio. (Fe I cofrestrwyd fel Gradd Dau yn 1962)*

*Cofiwch bod gwahoddiad i aelodau anfon eu cyfraniadau eu hunain i r cylchlythyr ynghyd thestun ac/neu luniau. Anfonwch syniadau/cyfraniadau i mi mewn da bryd (y dyddiad cau fel arfer yw ail wythnos mis Tachwedd, Chwefror, Mai ac Awst). Llawer o ddiolch.*

Dr Irene Brightmer
brightmer@btinternet.com

*Please don t forget that members are invited to make their own contributions to newsletters with text and/or images. Please send ideas/contributions to me in good time (usual deadlines are the second week of November, February, May and August). Many thanks.*

Dr Irene Brightmer
brightmer@btinternet.com

CBHC RCAHMW Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales

# DARGANFOD HEN DAI CYMREIG
# DISCOVERING OLD WELSH HOUSES

NODDWYR/PATRONS:
Syr Simon Jenkins, FSA, FRSL; Dr Eurwyn Wiliam, MA, PhD, FSA

*Dathlu Treftadaeth Cymru drwy astudio tai traddodiadol a bywydau'r bobl fu'n byw ynddynt.*

# CYLCHLYTHYR 32 Mawrth 2020

**EIN GWEFAN** http://discoveringoldwelshhouses.co.uk yw prif sianel gyfathrebu'r grŵp – defnyddiwch hi i weld mwy o fanylion am y digwyddiadau diweddar a'r rhai sydd ar ddod, ac i edrych ar ein llyfrgell sy'n cynyddu'n gyson ac ar nodweddion eraill.

### O'R GADAIR

Wel, alla'i ddim siarad llawer am y gwanwyn oherwydd mae'n ymddangos fod y stormydd o wynt a glaw wedi ei ddychryn i ffwrdd!

Mae'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, un o'n noddwyr ers 2008, bellach yn gorfod rhoi gorau i'r rôl. Fe'i benodwyd yn Ddirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, ac mae posibilrwydd o wrthdaro buddiannau. Rydym yn hynod o ddiolchgar iddo am ei gefnogaeth gadarn i'n Grŵp dros y blynyddoedd.

Rydym yn ymdrechu i ddiweddaru ein holl gofnodion tai a sicrhau bod mynediad iddynt yn haws, ac mae'r gwaith yn mynd yn dda. Mae'r Project Plwyfi ar waith. Mae ein Martin Cherry ni, ynghyd ag eraill o'r VAG, newydd gyhoeddi llyfr gwych ar dai ffrâm nenfforch ac fel aelodau o DHDC rydym yn cael gostyngiad da iawn, felly mae'n werth yr arian yn enwedig gan fod y postio'n gynwysedig; gweler y manylion isod.

*Richard Cuthbertson, Cadeirydd*



*Plas Penmynydd, Llangefni, Ynys Môn*

### Y NEWYDDION DIWEDDARAF GAN YR YSGRIFENNYDD

Fel yr eglurwyd yng Nghylchlythyr Rhagfyr 2019 mae DHDC yn rhoi dau brif fath o weithgaredd ar waith. Y cyntaf yw ein Project Plwyfi. Mae pob cangen yn raddol gasglu gwybodaeth sylfaenol ar bob tŷ cyn-1700 ym mhob plwyf yn ardal eu cangen wrth ddefnyddio fformat a gytunwyd. Cyn bo hir bydd Cynrychiolwyr Cangen yn cyfarfod i drafod cynnydd, adnabod gwelliannau ac unrhyw ffynonellau ychwanegol. Llawer o ddiolch i bawb a gymrodd ran yn y project sydd â'r nod o adnabod tai cynnar trwy gyfrwng dull

*Celebrating Welsh Heritage through the study of traditional houses and the lives of the people who lived in them.*

# NEWSLETTER 32 March 2020

**OUR WEBSITE** http://discoveringoldwelshhouses.co.uk is the Group's main channel of communication – please visit it to see details of recent and forthcoming events and to look at our growing library and other features.

### FROM THE CHAIR

Well, I can't talk much about Spring as it appears to have been blown or washed away or both!

Lord Dafydd Elis-Thomas, one of our patrons since 2008, now has to stand down from this role. He has been appointed as Deputy Minister of Culture, Sport and Tourism, and there is a potential conflict of interest. We are most grateful to him for his stalwart support of our Group over the years.

We are trying to get all our house records up to date and to make them easier to access, and this work is going well. The Parishes Project is proceeding. Our own Martin Cherry with others from the VAG have just published a wonderful book on Cruck Framed Houses and we members of DOWH get a very good discount, so is well worth the money especially as the postage is included, see details below.

*Richard Cuthbertson, Chairman*

### NEWS UPDATE FROM THE SECRETARY

As explained in the December 2019 Newsletter DOWH is pursuing two main types of activity. First is our Parishes Project. All branches are gradually collecting basic information on every pre-1700 house for each parish in their branch area using an agreed format. Branch Reps will soon be meeting to discuss progress, identify improvements and any additional sources. Many thanks are due to everyone involved in this project which will identify early houses in a methodical way across all of North Wales (except Wrexham where we have no branch at present). This will be of great value in prioritising and planning future projects to date timbers, record architecture and/or research house histories. A big thank you to all who are already beavering away at house history research. Second, we are collating, checking and updating the records of all the house visits undertaken since 2005, and their outcomes.

Other smaller projects continue including a Welsh translation of the Plas Penmynydd detailed house history, supported by the Isle of Anglesey County Council and a Tesco Community Fund in Denbighshire. Plas Penmynydd is an important house in the early history of the Tudors.

The Conwy branch requests that Tesco shopping tokens be dropped into their slot in the Llandudno Tesco Superstore prior to 31 March. Later they will be informed of the size of the grant they will receive for their local project.

Much of the above indicates the success in DOWH moving from a top-down to a bottom-up approach, with the

trefnus ledled holl siroedd gogledd Cymru (heblaw Wrecsam lle nad oes cangen ar hyn o bryd). Bydd hyn yn werthfawr iawn o ran blaenoriaethu a chynllunio projectau'r dyfodol i ddyddio pren, cofnodi pensaernïaeth ac/neu ymchwilio I hanes tai. Diolch enfawr i bawb sydd eisoes yn gweithio i ymchwilio i hanes tai. Yn ail, rydym yn coladu, gwirio a diweddaru cofnodion yr holl ymweliadau â thai a wnaed ers 2005, a'u canlyniadau.

Mae projectau llai eraill hefyd yn parhau yn cynnwys cyfieithiad i'r Gymraeg o hanes manwl Plas Penmynydd, gyda chefnogaeth Cyngor Sir Ynys Môn a Chronfa *Cymunedol Tesco yn Sir Ddinbych. Mae Plas Penmynydd yn dŷ pwysig yn hanes cynnar y Tuduriaid; gweler isod am fanylion Diwrnod Agored yno ym mis Gorffennaf.

Mae cangen Conwy yn gofyn yn garedig i bobl ollwng eu tocyn siopa Tesco yn eu blwch yn Superstore Tesco Llandudno cyn 31 Mawrth. Ymhellach ymlaen fe fyddan nhw'n cael gwybod maint y grant y byddan nhw'n ei dderbyn ar gyfer eu project lleol.

Mae llawer o'r uchod yn awgrymu llwyddiant DHDC wrth i'r canghennau bellach arwain ac ymgymryd â gweithgareddau o ddiddordeb lleol. Diolchwn i'r holl gynrychiolwyr cangen am eu gwaith yn trefnu digwyddiadau ac am gefnogi aelodau eu cangen. Mae'r ymddiriedolwyr (sy'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn) yn gofyn am awgrymiadau gan ganghennau am brojectau a gefnogir gan gymorth grant.

Dim ond ychydig o sgyrsiau am ein gweithgareddau sydd wedi eu cynnal dros y gaeaf. Mae'r rhan fwyaf o gyrff yn ein rhanbath sydd â diddordeb yn ein gwaith bellach wedi clywed o leiaf un sgwrs dros yr ychydig o flynyddoedd diwethaf.

**Mae DHDC bellach yn 15 mlwydd oed!** Wel, nid dyma'r stori i gyd, ond dyma hyd y cyfnod y mae gwirfoddolwyr wedi bod yn ymweld â thai a dod o hyd i grantiau ar gyfer dendrocronoleg a phrojectau eraill yng ngogledd Cymru. Cychwynnwyd gweithgareddau yn 2015 yn dilyn cloddio mewn adfail tŷ o'r 16eg ganrif gan Gymdeithas Hanes Beddgelert a dyddio tŷ neuadd ffrâm nenfforch gerllaw drwy ddulliau dendrocronoleg oedd â phren a gwympwyd yn 1508, gyda hanes y tŷ hefyd yn dyddio'n ôl i 1508. Daeth y "Project Eryri" hwn yn "Broject Dendrocronoleg Gogledd Orllewin Cymru" ac yna yn "Broject Dyddio Hen Dai Cymreig", gyda phob newid yn nodi datblygiadau mewn blaenoriaethau yn yr hyn yr ymgymerwyd ag ef.

Cafwyd ychydig o dan £250,000 drwy grantiau a chyfraniadau, yn ogystal â gwerth miloedd o bunnoedd o gefnogaeth a chyngor gan y Comisiwn Brenhinol ar Gofadeiladau Hynafol a Hanesyddol Cymru (CBGHHC) a llawer o gyrff eraill. Rydym yn hynod o ddiolchgar am yr holl gefnogaeth hon. Dros y blynyddoedd rydym wedi cyflwyno dros 180 o sgyrsiau i gymdeithasau lleol ledled gogledd Cymru i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd traddodiadau adeiladu Cymreig.

Mae ein nod o **"Ddathlu Treftadaeth Cymru drwy gyfrwng astudio tai traddodiadol a bywydau'r bobl a arferai fyw ynddyn nhw"** yn parhau i gael ei ddatblygu gan ein haelodaeth a'n gwirfoddolwyr sy'n dal i gynyddu; hebddyn nhw ni fyddai dim o hyn wedi bod yn bosibl. Felly, DIOLCH I CHI! Yn y Cylchlythyr nesaf gobeithir amlinellu manylion pellach o'r hyn a wireddwyd ers 2005.

*Margaret Dunn*

branches leading and undertaking activities of interest locally. We thank all branch reps for their hard work in arranging events and supporting members. Suggestions from branches for grant-aided projects are requested by the trustees who meet three times a year.

Only a few talks about our activities have been given over the winter. Most organisations in our region with an interest in our work have by now heard at least one talk over the past years.



*DOWH was represented at the Local History Fair at Ruthin Gaol/ Cynrychiolwyd DOWH yn y Fair Hanes Lleol a gynhaliwyd yng Ngharchar Rhuthun*

**DOWH is now 15 years old!** Well, this is not the whole story, but it is the length of time that volunteers have been visiting houses and raising grants for dendrochronology and other projects in North Wales. Activities started in 2005 following a Cymdeithas Hanes Beddgelert History Society excavation of a 16th century ruined house and the dendrodating of a nearby cruck hall house with timbers felled in 1508, with a house history also going back to 1508. This "Snowdonia Project", became the "North West Wales Dendrochronology Project" and then the "Dating Old Welsh Houses Project" and currently the "Discovering Old Welsh Houses Project", each change signalling developments in priorities in what was being undertaken.

Just under £250,000 has been raised through grants and donations, plus thousands of pounds worth of support and advice from the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales (RCAHMW) and many other organisations. We are very grateful for all this support. Over the years more than 180 talks have been given to local societies across North Wales to raise awareness of the importance of Welsh building traditions.

Our aim of "**Celebrating Welsh Heritage through the study of traditional houses and the lives of the people who lived in them**" continues to be developed by our growing membership and volunteers, without whom none of this could have been possible. So, THANK YOU! In the next Newsletter it is hoped to outline further details of what has been achieved since 2005.

*Margaret Dunn*

**NODYN ATGOFFA PWYSIG GAN YR YSGRIFENNYDD AELODAETH**

Mae tanysgrifiadau aelodaeth yn ddyledus ar Ebrill 1af. Aelodau unigol £15 y flwyddyn, aelodaeth ar y cyd £20 y flwyddyn. Cofiwch sicrhau eich bod yn adnewyddu mewn da bryd er mwyn cynnal eich buddion fel aelod. I'w gwneud yn haws rydym yn eich annog i drefnu Archeb Banc (gweler y wefan am ffurflen). Fel arall, anfonwch eich siec i Ysgrifennydd Aelodaeth GDHDC, Caerfallon, Rhuthun, LL15 1SL (01824 704404)
membership@discoveringoldwelshhouses.co.uk

**OS OES GENNYCH CHI DDIDDORDEB MEWN HEN DAI** ac os nad ydych eisoes yn aelod, pam na wnewch chi ystyried ymaelodi â'r Grŵp? Mae manylion llawn a ffurflen gais ar gael ar ein gwefan.

*Zoë Henderson*

**HYSBYSIAD O 15fed CYFARFOD BLYNYDDOL CYFFREDINOL Y GRŴP DARGANFOD HEN DAI CYMREIG**

**Cynhelir y CBC ar ddydd Sadwrn 27 Mehefin 2020 am 2 yp.**
**Dilynir gan ddarlith gyhoeddus am ddim yn Saesneg am 3 yp. 'Golwg Newydd ar Dai Hanesyddol Gogledd Cymru oddeutu 1400-1600: effaith dendrocronoleg' i'w thraddodi gan Dr Martin Cherry, cyn-lywydd y Vernacular Architecture Group.**
**Canolfan Gymunedol Craig y Don, Heol y Frenhines, Llandudno, Conwy LL30 1TE.**
**Mynediad am ddim, croeso i bawb (pleidleisio gan aelodau cyfredol yn unig). Arddangosfeydd a lluniaeth ysgafn.**

**RHYBUDD YMLAEN LLAW**

**Plas Penmynydd, Llangefni, Ynys Môn**, sydd â chysylltiad agos â llinach Tuduraidd. **Prynhawn agored 11 Gorffennaf (Sadwrn) 2020, 2-4yp.** Mynediad £5 (am ddim i rai o dan 16). Lluniaeth ysgafn. Teithiau tywys a sgyrsiau o amgylch y tŷ a'r gerddi. Does dim angen archebu ymlaen llaw. Parciwch yn y cae gyferbyn â'r lôn a cherdded i'r tŷ; rhywfaint o barcio i bobl gydag anableddau wrth y tŷ. Drwy ganiatâd caredig y perchennog. (Yn gysylltiedig â Gŵyl Archeoleg 2020.)

**DIGWYDDIADAU CANGHENNAU**

Archebwch gyda chysylltiadau'r gangen, £2 fel arfer. Rydym yn hynod o ddiolchgar i berchnogion y tai am eu caredigrwydd.

**I'CH ATGOFFA**

**1 Mae'r tai y sonnir amdanynt nhw yn y Cylchlythyr hwn sydd â chysylltiad â DHDC yn breifat ac NID YDYNT yn agored i'r cyhoedd.**
**2 Fe all aelodau gymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiad cangen, nid yn unig ddigwyddiadau eu cangen eu hunain. Gwiriwch gyda chyswllt y gangen.**

**CANGEN YNYS MÔN.** Cysylltwch â Sue Hurst (sylwch ar yr ebost newydd):
anglesey@discoveringoldwelshhouses.co.uk
01407 459319. (Archebwch mewn da bryd)
**Mawrth 18 (Mercher) 2-4 yp**
Sgwrs gyda lluniau gan Terry Williams ar "Rai o Dai Coll Ynys Môn". Tai yw'r rhain na lwyddodd i oroesi hyd yr 21ain ganrif. Neuadd Gymuned Benllech, lluniaeth ysgafn, cost £2. Cyfyngir y nifer i 20.

**URGENT REMINDER FROM THE MEMBERSHIP SECRETARY**

Membership subscriptions are due on April 1st. Individual membership £15 p.a., Joint membership £20 p.a.
Please make sure you renew on time to retain your membership benefits. To make it easier you are encouraged to take out a Standing Order (see website for form). Otherwise please send your cheque to DOWHG Membership Secretary, Caerfallen, Ruthin,LL15 1SL. (01824 704 404)
membership@discoveringoldwelshhouses.co.uk

**IF YOU ARE INTERESTED IN OLD HOUSES** and are not already a member, why not consider joining the Group? Full details and application form on our website.

*Zoë Henderson*

**NOTICE OF the 15th AGM OF THE DISCOVERING OLD WELSH HOUSES GROUP**

**The AGM will be held onSaturday 27 June 2020 at 2 p.m.**
**Followed by free public lecture at 3 p.m. 'New Perspectives on the Historic Houses of North Wales c. 1400-1600: the impact of dendrochronology' to be given by Dr Martin Cherry, former president of the Vernacular Architecture Group.**
**Craig y Don Community Centre, Queens Road, Llandudno, Conwy LL30 1TE.**
**Free entry, all welcome (voting by current members only). Displays and Light refreshments**

**ADVANCE NOTICE OF OPEN AFTERNOON July 11th**

**Plas Penmynydd, Llangefni, Anglesey. - connected to the Tudor dynasty. Open Afternoon** – Saturday 11th July 2020 from 2.00 – 4.00 p.m. Admission £5 (free for U16s). Light refreshments. Talks and guided tours around the house and gardens. No prior booking required. Park in field opposite, and walk to house; some disabled parking at house. By kind permission of the owner. (Linked with the 2020 Festival of Archaeology.)

**BRANCH EVENTS**

Book with branch contacts, usually £2. We are very grateful to house-owners for their hospitality.

**REMINDERS**

**1 Houses mentioned in this Newsletter and/or linked with DOWH are private and are NOT open to the public.**
**2 Members may participate in any branch event, not only their own. Check with branch contact.**



*Plas Berw, Gaerwen*

**Ebrill 30 (Iau) 2-4 yp**
Ymweliad â Phlas Berw, Gaerwen. Dyma safle cymhleth gyda gweddillion adfeiliedig cynnar a maenordy gwych o'r 17eg ganrif. Taith o amgylch y tŷ (esgidiau dan do, os gwelwch yn dda) a lluniaeth ysgafn, cost £2. Cyfyngir y nifer i 15, felly cofiwch archebu lle yn gynnar.
**Mai 19 (Mawrth) 2-4 yp**
Ymweliad â'r Hen Reithordy, Llanfaethlu. Yn 1778 roedd yr adeilad yn cynnwys 9 bae sydd bellach yn ffurfio cefn y tŷ ac adeiladwyd yr hanner ar flaen y tŷ oddeutu 1837. Mae'n debyg bod rhannau o gefn y tŷ yn hŷn na'r 18fed ganrif. Gyda chaniatâd caredig y perchnogion. Dim mwy 12 o fobl, lluniaeth ysgafn ar gael. Mynediad drwy gyfraniad.
**Mehefin 8 (Llun) 2-4 yp**
Ymweliad â Henblas, Llangristiolus. Dyma gyfle prin i weld y tŷ a'r gerddi, drwy ganiatâd caredig y perchnogion. Henblas oedd cartref Elizabeth Morgan (1705-73), garddwr enwog o Ynys Môn a thestun y llyfr diweddar gan Mary Gwynedd Jones. Dim mwy na 15, lluniaeth ysgafn ar gael. Mynediad £5
**Gorffennaf 11 (Sad) 2-4 yp**
Prynhawn Agored Plas Penmynydd. Gyda chaniatâd caredig y perchennog. Mae'r digwyddiad hwn yn cyd-ddigwydd â Gŵyl Archeoleg 2020. Cyfle i edrych o gwmpas yr hen dŷ hyfryd hwn, sydd â chysylltiad â'r Tuduriaid cynnar, ac archwilio'r gerddi. Lluniaeth ysgafn ar gael. Parciwch yn y cae gyferbyn â'r lôn a cherddwch i'r tŷ; rhywfaint o barcio i bobl gydag anableddau wrth y tŷ. Mynediad £5, am ddim i rai o dan 16. (Does dim angen archebu ymlaen llaw).

**CANGEN CONWY.** Cysylltwch â Gill Jones 01492 517 330
gidulas@doctorbones.org
**Ebrill –** dim cyfarfod
**Mai** – Ymweliad â Phlas Ucha, Glan Conwy. Dyddiad ac amser i'w cadarnhau.
**Mehefin –** Taith dywys o amgylch Carchar Rhuthun. Dyddiad ac amser i'w cadarnhau.
**Gorffennaf 20 (Llun) 9.30 yb**. Sesiwn waith yn nhŷ Gill.

**CANGEN SIR DDINBYCH** Cyswllt: Janice Dale
01490 440427 jadale22@hotmail.co.uk.
Cysylltwch â Janice am gopi o'r rhaglen.



*Caerfallen ger Rhuthun.*

**ANGLESEY BRANCH.** Contact Sue Hurst (note new contact email): anglesey@discoveringoldwelshhouses.co.uk 01407 459319 (Please book well in advance)
**March 18 (Weds) 2-4pm**
Talk and slide show by Terry Williams on "Some of Anglesey's Lost Houses". These are houses which sadly didn't make it into the 21st century. Benllech Community Hall, light refreshments, cost £2. Numbers limited to 20.
**April 30th (Thurs) 2-4pm**
Visit to Plas Berw, Gaerwen. This is a complex site with ruinous early remains and a magnificent 17th century manor house. Tour of the house (indoor shoes, please) and light refreshments, cost £2. Numbers limited to 15, so early booking is advised.
**May 19th (Tues) 2-4pm**
Visit to the Old Rectory, Llanfaethlu. In 1778 the building consisted of 9 bays which now form the back of the house, the front half was built around 1837. Parts of the back of the house are probably older than the 18th Century. By kind permission of the owners. Maximum number 12, light refreshments available. Admission by donation.
**June 8th (Mon) 2-4pm**
Visit to Henblas, Llangristiolus. This is a rare opportunity to see the house and gardens, by kind permission of the owners. Henblas was the home of Elizabeth Morgan (1705-73), famous Anglesey gardener and the subject of the recent book by Mary Gwynedd Jones. Maximum number 15, light refreshments available. Admission £5




*Front cover of book about Elizabeth Morgan of Anglesey (see Anglesey Branch programme)/*
*Clawr blaen y llyfr am Elizabeth Morgan o Ynys Môn (gweler rhaglen Cangen Ynys Môn i ymweld â'i thŷ)*

**July 11th (Sat) 2-4pm**
Plas Penmynydd Open Afternoon. This event coincides with the opening of the Council of British Archaeology 2020 Festival of Archaeology. An opportunity to look around this wonderful old house, associated with the early Tudors, and explore the grounds. Light refreshments available. Park in field opposite and walk to the house; some disabled parking at the house. By kind permission of the owner. Admission £5, free for U16s. (Prior booking not required)

**CANGEN LLANSILIN** Cysylltydd Mary Cunnah, marycunnah@yahoo.co.uk.
Mae rhai aelodau o'r gangen yn ysgrifennu llyfr am hanes Llansilin, ac yn parhau i ymchwilio i dai hanesyddol lleol.
Fel arall does dim rhaglen o ddigwyddiadau wedi ei threfnu ac mae aelodau'n cael eu hannog i ymuno â gweithgareddau canghennau eraill.



*Ffermdy hanesyddol yn Llansilin 1485 /Historic Farmhouse Llansilin*

**CANGEN MEIRIONNYDD.** Cyswllt newydd Martin Cherry 01341 423517 martincherry@btinternet.com (Rhaid archebu lle)
**Mercher 1 Ebrill. 10.30 yb** (Archifau Meirionnydd, Dolgellau) Cyfarfod o'r Project Plwyfi yn cynnwys ymweliadau o bosib. John Townsend yw'r cydlynydd ar gyfer cyfarfodydd y Project Plwyfi. john@thetownsends.org.uk.
**Mercher 6 Mai.** Cyfarfod byr o'r Project Plwyfi gyda gweithdy i ddilyn am 11 yb ar ddefnyddio ffynonellau dogfennol a arweinir gan Ani Skarzynska. Lleoliad fel uchod.
**Mehefin** (yr union ddyddiad i'w gadarnhau). Cyfarfod byr o'r Project Plwyfi gyda diwrnod o hyfforddiant llawn ar Gofnodi mewn tŷ lleol. Dyma ffermdy ffrâm nenfforch sydd bellach yn adfail ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer storio. Cafodd ei "ddarganfod" fel rhan o'r Project Plwyfi yn Llanelltud. Dydy o ddim wedi ei restru, nag ar Goflein, ac mae'n ffermdy gwerinwyr "anhysbys", o'r 16G mae'n debyg. O ganlyniad, credwn y dylid ei gofnodi'n briodol. Rydym yn cymryd y cyfle hwn o gynnig hyfforddiant i unrhyw un a hoffai roi cynnig ar fesur, braslunio, tynnu lluniau, cymryd nodiadau – darperir pob deunydd angenrheidiol. Noder, pan fyddwn yn gwybod y dyddiad, bydd angen i ni wybod y niferoedd ymlaen llaw. Cysylltwch â Martin Cherry yn nes i'r amser (0771 6993652 or 01341 423517).

**CANGEN GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU.** Cysylltydd Margaret neu Wally Barr 01745 888 622, magsbarr@yahoo.co.uk wallybarr@yahoo.co.uk
Dylech archebu ymlaen llaw.
**Ebrill 28 (Mawrth) 2 yp**
Neuadd Bentref Llanasa. Cyfarfod a sgwrs ar enwau lleoedd Sir Y Fflint gan Hywel Wyn Owen, Athro Emeritws, cyn-gyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Enwau Lleoedd ym Mhrifysgol Bangor.
**Mai 19 (Mawrth) 2 yp**
Ymweliad a chyfarfod yng Ngholomendy, Ysgeifiog, tŷ neuadd deulawr dyddiedig 1660-1663.



*Henblas, Llangristiolus, Ynys Môn*

**CONWY BRANCH.** Contact Gill Jones 01492 517 330 gjdulas@doctorbones.org
**April** - no meeting
**May** - Visit to Plas Ucha, Glan Conwy. Date and time to be confirmed.
**June** - Guided tour of Ruthin Gaol. Date and time to be confirmed.
**July 20th (Mon) 9.30am**. Working session at Gill's house.




*Plas Ucha, Glan Conwy*

**DENBIGHSHIRE BRANCH.** Contact Janice Dale 01490 440427 jadale22@hotmail.co.uk
Please contact Janice for programme.

**LLANSILIN BRANCH.** Contact Mary Cunnah, marycunnah@yahoo.co.uk.
Some members of the branch are writing a book about the history of Llansilin, and are continuing to research local historic houses in the area.
Meanwhile no programme of events has been arranged and members are encouraged to join up with activities of other branches.

**MERIONETH BRANCH.** New contact Martin Cherry 01341 423 517 martincherry@btinternet.com (Booking essential)
**April 1st (Weds) 10.30am**
Meeting at Merioneth Archives, Dolgellau Parishes Project meeting possibly involving visits. John Townsend is the coordinator for the Parishes Project. john@thetownsends.org.uk.

**Mehefin 30 (Mawrth) 2 yp**
Llyfrgell Gladstone, Penarlâg. Sgwrs gan Paul Brighton, hanesydd, 'The Mostyns of Mostyn: A History of a Family Home'.

**CANGEN ERYRI** Cyswllt: Ann Alston: 01758 750322
snowdonia@discoveringoldwelshhouses.co.uk
Archebwch yn gynnar.
**Mawrth 24 (Mawrth) 2 yp** Ymweliad â Rhydolion, ger Llangian. Ffermdy byddigions a chartref y Comisiynydd Piwritan enwog Jeffrey Parry (m. 1658). Dewch ag esgidiau dan do. Lluniaeth ysgafn. £2 yr un. Dim mwy na 15.
**Ebrill 4 (Sad) 2 yp** Ymweliad â Ffridd Isaf, Rhyd-ddu. Tŷ Eryri dyddiedig 1599/1600. Byddwn yn edrych ar hen ysguboriau a 2 gyfnod y ffermdy. Dewch ag esgidiau i newid iddyn nhw. Lluniaeth ysgafn. £2 yr un. Dim mwy na 10.

**Mai 5 (Mawrth) 2 yp**. Ymweliad â Thŷ Nanhoron, Llŷn. Dewch ag esgidiau dan do. Lluniaeth ysgafn. £5 yr un. Dim mwy na 20.

**Mehefin 1 (Llun) 2 yp**. Ymweliad â Thy'n Tŵr, Bethesda. Tŷ ffrâm nenfforch a chartref honedig yr Archesgob John Williams. Dewch ag esgidiau dan do. Lluniaeth ysgafn. £2 yr un. Dim mwy na 15.

**Mercher 1 (Gorffennaf) 1.30 yp**. Cyfarfod yn Ystafell Gymunedol Swyddfa Gofnodi Caernarfon. Gweithdy'r Project Plwyfi i'r sawl sy'n ymgymryd ag ymchwil plwyf neu â diddordeb ynddo, ynghyd â'r newyddion diweddaraf. Arweinir gan Peter Masters. Lluniaeth ysgafn. £2 yr un. Dim mwy na 15.



*Gerddi a thŷ Nanhoron/ Garden and house Nanhoron*

**Y LLYFR NEWYDD AR GODI NENFFYRCH**
Mae'r llyfr clawr caled 400-tudalen newydd hwn yn darparu'r wybodaeth a'r theorïau diweddaraf am darddiad nenffyrch a'u dosbarthiad yng ngwledydd Prydain. Yn rhyfedd, dydyn nhw ddim yn bodoli yn nwyrain Lloegr nac ar gyfandir Ewrop, a does neb yn gwybod pam. Fel aelodau GDHDC, byddwch wedi ymweld â thai ffrâm-nenfforch, neu wedi darllen neu glywed amdanyn nhw. Wel, dyma bob dim sydd angen i chi ei wybod! Diffiniad nenfforch: 'Mae gwir nenfforch yn cynnwys dau ddarn o bren, yn syth neu'n grom, sy'n gweithredu fel prif goedyn y to, neu'n ymestyn i bwynt wrth grib y to, neu'n agos ato, o lefel sy'n isel i lawr y muriau ochr." Daw ystyr y gair Saesneg 'cruck' o 'crook', sef pren ar dro. Cofnodwyd dros 4,000 o adeiladau sy'n defnyddio

**Wednesday 6 May.**
Short Parishes Project meeting followed at 11am with workshop on using documentary sources led by Ani Skarzynska. Venue as above.
**June** (precise date to be confirmed). Brief Parishes Project followed by a full day training day on Recording at Foel Ispri Uchaf. This is a cruck-framed farmhouse, now dilapidated and used for storage. It was "discovered" as part of the Parishes Project for Llanelltyd. It is unlisted, not on Coflein, and is an "unknown" peasant farmhouse, probably of the 16th century. As such we think it should be properly recorded. We are taking the opportunity to offer training to anyone who would like to try their hand at measuring, sketching, photographing, note-taking — all materials will be supplied. Please note, when the date is known, we will need to know numbers beforehand. Please contact Martin Cherry nearer the time (0771 6993652 or 01341 423517).




*Front cover of Place-names book ( see programme for NE Wales Branch)*
*Clawr blaen llyfr enwau lleoedd Sir Y Fflint (gweler rhaglen Cangen gogledd ddwyrain Cymru)*

**NORTH EAST WALES BRANCH.** Contact Margaret or Wally Barr 01745 888 622, magsbarr@yahoo.co.uk
wallybarr@yahoo.co.uk Please book in advance.
**April 28th (Tues) 2pm**
Llanasa Village Hall. Meeting and talk on Flintshire place-names by Hywel Wyn Owen, Emeritus Professor, formerly director of the Place-Name Research Centre at Bangor University.
**May 19th (Tues) 2pm**
Visit and meeting at Colomendy, Ysgeifiog, two-storey hall house dated 1660-1663.
**June 30th (Tues) 2pm**
Gladstone's Library, Hawarden. Talk by Paul Brighton, historian, 'The Mostyns of Mostyn: A History of a Family Home'.

nenfforch, 10% ohonyn nhw wedi eu dendro-ddyddio, ac maen nhw'n darparu llawer iawn o wybodaeth am eu hanes. Mae'r llyfr yn cynnwys sawl pennod ar eu harcheoleg, gwaith y seiri coed a rheolaeth y goedlan a ddarparodd y pren. Mae sawl pennod yn crybwyll rhanbarthau o wledydd Prydain; Richard Suggett o Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) yw awdur yr un am Gymru. Mae Richard yn adnabyddus i lawer o aelodau GDHDC, ac mae wedi helpu gyda'n dealltwriaeth o lawer o hen dai ein rhanbarth. Mae pennod ar 'The Afterlife of Cruck Houses – Modernisation and Obsolescence in North Wales' yn astudiaeth ddifyr gan ddau o aelodau GDHDC yn Sir Feirionnydd, Martin Cherry a Peter Thompson. Bydd llawer o'u henghreifftiau wedi eu dylunio yn gyfarwydd i ddarllenwyr y cylchlythyr hwn oherwydd mae canghennau wedi ymweld â nhw. Mae Martin a Peter yn nodi ein diddordeb ni yn yr 21G am nenffyrch, gyda pherchnogion yn eu sgwrio a'u llathru a thynnu lloriau a osodwyd er mwyn 'dangos ysblander a fu yr hen neuaddau'. Mae hyn i gyd yn wrthgyferbyniad i frwdfrydedd y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg dros 'ddiweddaru' a chael gwared â phob arwydd o adeiladu gyda phren drwy blastro drostyn nhw!



*Lansiad ym mis Ionawr ym Mhrifysgol Caerlŷr o'r llyfr newydd ar godi nenffyrch, gyda'r cyd-olygydd Martin Cherry (dde) a'r cyd-awdur Peter Thompson (chwith), y ddau'n aelodau o GDHDC.*

*Launch in January at Leicester University of the new book on cruck building, with co-editor Martin Cherry (right) and co-author Peter Thompson (left), both members of DOWHG*

Mae lluniau lliw moethus yn y llyfr ynghyd â diagramau technegol graddedig, cynlluniau, mapiau dosbarthiad a ffotograffau. Y pris gwerthu yw £50 ond mae'r cyhoeddwr, yn garedig iawn, yn ei gynnig i aelodau GDHDC am ddim ond £35, yn cynnwys postio a phacio.

I sicrhau eich copi cysylltwch â'r cyhoeddwr, gorau oll drwy gyfrwng ebost, gan ddatgan eich bod yn "aelod o GDHDC (sy'n gysylltiedig â'r VAG)".

shaun@shauntyas.myzen.co.uk (SHAUN TYAS, 1 High Street, Donington, SPALDING, Lincolnshire, PE11 4TA. Ffôn 01775 821542)

Irene Brightmer, Newsletter Editor



*Mostyn Hall, Porth Mawr/Neuadd Mostyn, Porth Mawr, 1570*

**SNOWDONIA BRANCH.** Contact: Ann Alston: 01758 750322 snowdonia@discoveringoldwelshhouses.co.uk (book early)

**March 24th (Tues) 2 pm** Visit to Rhydolion, near Llangian. Gentry farmhouse and home of famous Puritan Commissioner Jeffrey Parry (d.1658). Bring indoor shoes. Light refreshments. £2 per head. Max 15.

**April 4th (Sat) 4th 2 pm** Visit to Ffridd Isaf, Rhyd Ddu. Snowdonia house dated to 1599/1600. We shall view old barns and 2 phases of the farmhouse. Bring change of shoes. Light refreshments. £2 per head. Max 10.

**May Tues 5th 2 pm.** Visit to Nanhoron House, Lleyn. Bring indoor shoes. Light refreshments. £5 per head. Max 20.

**June 1st (Mon) 2 pm.** Visit to Ty'n Twr, Bethesda. Cruck-framed house and reputed home of Archbishop John Williams. Bring indoor shoes. Light refreshments. £2 per head. Max 15.

**Weds 1st July 1.30 pm.** Meeting at Caernarfon Record Office Community Room. Parishes Project Workshop for those undertaking or interested in parish research, giving the latest updates. Led by Peter Masters. Light refreshments. £2 per head. Max 15.

**THE NEW BOOK ON CRUCK BUILDING**

This 400-page hardback provides the latest knowledge and theories about the origin of crucks and their distribution in Britain. Intriguingly they are not found in eastern England or in continental Europe, and no one knows why. As DOWHG members you will have often visited, read or heard about cruck-framed houses, well here is everything you need to know! The agreed definition of a cruck: 'A true cruck consists of a pair of timbers, straight or curved, serving as the principal of a roof, or stretching to a point at or close to the apex of the roof, from a level well down the side walls.' And did you know that the meaning of cruck is derived from 'crook', a curved timber? More than 4,000 buildings using crucks have been recorded, 10% of which have been dendro-dated, providing a huge amount of new information about their history.

The book contains chapters on their archaeology, carpentry and the management of the woodland that provided the timbers. Several chapters are devoted to regions of Britain; the one on Wales is by Richard Suggett of the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales (RCAHMW). Richard is well-known to many DOWHG members, and has helped in the understanding of many old houses in our region. A chapter on 'The Afterlife of Cruck Houses – Modernisation and Obsolescence in North Wales' is a fascinating study by DOWHG members, Martin Cherry and Peter Thompson. Many of their illustrated examples will be familiar to readers of this newsletter as they have been




visited by branches. Martin and Peter comment on our 21st century fascination for crucks, with owners scrubbing and polishing them and removing inserted floors 'to reveal the ancient halls in their former glory'. All this is in contrast to the enthusiasm of the eighteenth and nineteenth centuries to 'modernise' and obliterate all vestiges of timber construction through plastering over!

The book is lavishly illustrated in colour with scaled technical diagrams, plans, distribution maps and photos. The retail price is £50 but the publisher is kindly offering it to DOWHG members for only £35, inc P&P. To obtain your copy contact the publisher, preferably by email, stating that you are a "member of DOWHG (affiliated to the VAG)". shaun@shauntyas.myzen.co.uk (SHAUN TYAS, 1 High Street, Donington, SPALDING, Lincolnshire, PE11 4TA. Ph. 01775 821 542)
Happy reading!

Irene Brightmer, Newsletter Editor

## ÔL NODYN

**Roedd y rhifyn hwn o'r cylchlythyr bron a bod yn barod i'w anfon i'r darllenwyr profleni pan gawsom ar ddeall byddai'n rhaid gohirio ein rhaglen haf. Arafwyd hyn y broses. Er hynny, rydym yn anfon y cylchlythyr fel y gallwch edrych ymlaen at nifer o weithgareddau pan fydd yr argyfwng drosodd.**

## POSTSCRIPT

**This edition of the Newsletter was almost ready to send out to our proofreaders when the news came of the necessary cancellation of our summer programme due to the virus emergency. This slowed down the completion. Nevertheless, we are sending it out now to whet your appetite for the activities we can all look forward to when this emergency is over.**

CBHC RCAHMW Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales
Noddwyd gan Ymddiriedolaeth Elusennol Môn
Sponsored by The Anglesey Charitable Trust
TESCO Bags of Help

# DARGANFOD HEN DAI CYMREIG
# DISCOVERING OLD WELSH HOUSES

NODDWYR/PATRONS:
Sir Simon Jenkins, FSA, FRSL; Dr Eurwyn Wiliam, MA, PhD, FSA


*Dathlu Treftadaeth Cymru drwy astudio tai traddodiadol a bywydau'r bobl fu'n byw ynddynt..*

*Celebrating Welsh Heritage through the study of traditional houses and the lives of the people who lived in them.*


## CYLCHLYTHYR 33 *Mehefin 2020*

## NEWSLETTER 33 *June 2020*


**EIN GWEFAN** discoveringoldwelshhouses.co.uk yw prif sianel gyfathrebu'r Grŵp. Defnyddiwch hi i weld mwy o fanylion am y digwyddiadau diweddar a'r rhai sydd ar ddod, ac i edrych ar ein llyfrgell sy'n cynyddu'n gyson ac ar nodweddion eraill.

**OUR WEBSITE** discoveringoldwelshhouses.co.uk is the Group's main channel of communication. Please visit it to see details of recent and forthcoming events and to look at our growing library and other features.

### O'R GADAIR

Helo, bawb. Er nad oes fawr yn digwydd ar hyn o bryd, mae'r ymddiriedolwyr yn cytuno ei bod yn bwysig ein bod yn ystyried y dyfodol ac yn casglu syniadau a all ein harwain at ddyddiau gwell. Dydw i ddim yn mynd i sôn am y gair dychrynllyd sy'n dechrau efo c ac yn diweddu efo 19 gan nad yw'n codi calon neb, felly mi sonia'i ei bod yn 8.36 y bore ac rydw i'n dal yn fy ngwely! Roeddwn yn darllen 'The Old Churches of Snowdonia' gan Harold Hughes a Herbert North yn gynharach ac yn meddwl llyfrau mor ardderchog yw hwn a'i gyfaill-gyfrol 'The Old Cottages of Snowdonia'. Yn y gorffennol rydym wedi trafod dychwelyd i edrych eilwaith ar y bythynnod yr ymwelwyd â nhw, bron i gan mlynedd yn ôl, i weld eu cyflwr erbyn hyn a sut mae dehongliad eu datblygiad wedi newid. Rydw I'n meddwl ei fod yn syniad bach deniadol dros ben ac y dylem fwrw ymlaen ag o. Rydw i'n siarad ar fy nghyfer braidd yma oherwydd dydy'r syniad ddim wedi ei gymeradwyo'n iawn gan yr Ymddiriedolwyr, ond rydw i'n teimlo ei fod yn werth ei ystyried. Byddai'n gryn her, ac yn rhywbeth i edrych ymlaen ato! Rŵan, mae'n rhaid i mi droi fy sylw at ddyfrio'r ardd a chodi o'm gwely. Bydd yn dda eich gweld i gyd cyn bo hir, felly pwyll piau hi tan hynny.

Richard Cuthbertson, cadeirydd

### FROM THE CHAIR

Hi, everyone. The trustees all agree that though there is not a lot happening it's important that we all think about the future and gather in ideas that might guide us through to the sunlit uplands. I am not going to mention the dreadful word that begins with C and ends with 19 as it never brings joy to anyone's heart, instead I will tell you that it's 8.36 am and I am still in bed! I was reading 'The Old Churches of Snowdonia' by Harold Hughes and Herbert North earlier and thinking what wonderful books it and its companion volume 'The Old Cottages of Snowdonia' are. We have talked in the past about going back to look again at the cottages they examined, almost 100 years ago, see how they have fared over time and how interpretations about their development have changed. I think it's a very attractive little idea and most appropriate that we should do it. I'm speaking a bit out of turn here as the idea has not been properly approved by the trustees, but I think it's well worth considering, and it would be a great challenge!! And something to look forward to. Now I must turn my attention to watering the garden and get out of bed. It will be good to see you all soon, take care,

Richard Cuthbertson, chairman

### YY DIWEDDARAF GAN YR YSGRIFENNYDD

Gobeithio bod pawb yn dygymod â'r sefyllfa ryfedd hon a'ch bod chi a'ch teuluoedd yn ddiogel ac yn iach. Rydym yn bendant yn byw mewn cyfnod anghyffredin ac mae pob un ohonom wedi gorfod addasu ein dull o fyw i rhyw raddau, gydag ambell un yn cael eu gwarchod neu'n hunan-ynysu. Bydd llawer ohonom wedi bod yn mwynhau'r tywydd braf ac mae'n debyg bod ein gerddi wedi cael mwy o sylw nag arfer! Mae'r Cylchlythyr mis Mehefin hwn yn wahanol iawn oherwydd does dim cyfarfodydd na gweithgareddau cymunedol wedi digwydd ers ein Cylchlythyr ym mis Mawrth a does dim modd cynllunio rhai eraill. Fodd bynnag, mae llawer o bobl wedi bod yn brysur gyda

### UPDATE FROM THE SECRETARY

We hope that everyone is coping well during these unusual times and that you and your families are keeping in good health. We are definitely living through strange times and we have all had to modify our lifestyles to a greater or lesser extent, with some shielded or self-isolated. Many of us will have been enjoying the amazing weather and gardens have probably had more attention than usual! This June Newsletter is very different in that no meetings or communal activities have taken place since our March Newsletter and none can yet be planned. However, many people have been busy with DOWH related work. Some branches have been circulating regular notes,

gwaith sy'n gysylltiedig â DHDC. Mae ambell i gangen wedi bod yn dosbarthu nodiadau rheolaidd a manylion am wybodaeth ymchwil ychwanegol ar-lein am ddim, ac hefyd wedi dosbarthu cwisiau yn ogystal â chynnig cymorth i'w haelodau. Mae hanesion tai yn cael eu cwblhau ac mewn un achos mae project hanes tŷ cymunedol wedi ei roi ar waith. Mae cyfieithiad Cymraeg hanes Plas Penmynydd wedi ei gwblhau gan Ann Corkett, gydag arweiniad gan Morgan a Gill Jones yn bennaf, diolch i grant gan Gyngor Sir Ynys Môn a chyfraniadau gan aelod o DHDC a chronfeydd DHDC.

Rydym hefyd yn ddiolchgar am grant o Gronfa Marc Fitch a dderbyniwyd i gynorthwyo gyda diweddaru ein cofnodion ar ymweliadau tai ers 2005 (gweler yr adroddiad isod). Mi fydd y rhain ar gael fel crynodeb ar daenlen y gellir ei harchwilio. Bydd cofnodion mwy manwl yn parhau i fod ar gael. Rydym yn parhau i fod yn hynod ddiolchgar i'r RCAHMW am eu cefnogaeth a'u cyngor. Mae'r Project Plwyfi yn parhau (eto, gweler isod), rhai'n digwydd yn gynt nag eraill wrth i aelodau yn y canghennau gwblhau'r fformat a gytunwyd ar gyfer eu plwyfi a ddewiswyd ac ambell dro yn ychwanegu llawer mwy o fanylion. Diolch enfawr i bawb fu'n cymryd rhan. Gan fod ein CBC ym mis Mehefin wedi gorfod cael ei ohirio, mae'r ymddiriedolwyr yn bwriadu dosbarthu'r adroddiad blynyddol a'r datganiad ariannol heb ei archwilio i bob aelod ymhen rhyw fis. Yna bydd amser wedi ei ddosrannu ar gyfer sylwadau aelodau cyn i'r dogfennau gael eu hanfon i'r Comisiwn Elusennau yn ôl y gofynion cyfreithiol. Mae pob sgwrs i gyrff allanol wedi eu canslo neu eu gohirio hyd y flwyddyn nesaf. Yn yr adegau anghyffredin yma mae hi'n anodd rhagweld sut y bydd gweithgareddau DHDC yn cael eu trefnu yn y misoedd i ddod. Byddwn yn cadw mewn cysylltiad wrth i'r sefyllfa ddod yn fwy eglur, ond mae'n edrych yn debygol y bydd rôl canghennau o ran cynnal diddordeb aelodau a darparu awgrymiadau a chefnogaeth yn cynyddu. Dydy Irene Brightmer ddim yn golygu'r rhifyn hwn o'r Cylchlythyr oherwydd amgylchiadau personol, ond gobeithiwn y bydd yn gallu golygu rhifyn mis Medi. Yn y Cylchlythyr hwn mae ffotograffau o dai ffrâm nenfforch heb eu dyddio o Sir Ddinbych.

Margaret Dunn

**NODIADAU O'R CANGHENNAU**

Er bod Cofid-19 wedi arglwyddiaethu ar ein bywydau, mae'r canghennau lleol wedi bod yn hynod o brysur a chynhyrchiol. Mae'r Project Plwyfi wedi gweld cynnydd sylweddol. Mae'r gwaharddiad ar ymweliadau safle a'r penderfyniad i gau llyfrgelloedd ac archifau wedi ein gorfodi i ddefnyddio mwy ar y rhyngrwyd (gweler yr arweiniad byr i adnoddau rhyngrwyd am ddim ar gyfer haneswyr tai sy'n atodol i'r Cylchlythyr hwn). Os

details of additional free online research information and circulating quizzes as well as offering help to their members. House histories are being completed and in one case a community house history project is being undertaken. The Welsh translation of the Plas Penmynydd house history has been completed by Ann Corkett, led mainly by Ann Morgan & Gill Jones, thanks to the Isle of Anglesey County Council grant with contributions from a DOWH member and the DOWH funds.

We are also grateful for a Marc Fitch Fund grant which has been received to assist with the updating of our records on house visits since 2005 (see the report below). They will then be available as a summary on a searchable spreadsheet. More detailed records will remain available. We continue to be very grateful to the RCAHMW for their support and advice. The Parishes Project continues (again, see below) at varying speeds as members in the branches complete the agreed format for their chosen parishes and sometimes add much more detail. A huge thank you to all involved. As our June AGM has had to be postponed, the trustees plan to circulate the annual report and unaudited financial statement to all members in a month or so. There will then be time allocated for members to comment before the documents are sent to the Charity Commission as legally required. All talks to external organisations have been cancelled or postponed until next year. In these unprecedented times it is very hard to anticipate how DOWH activities might be arranged in the coming months. We will keep in touch as matters become clearer, but it seems likely that the role of branches in maintaining the interest of members and providing suggestions and support will increase. Irene Brightmer is not editing this edition of the Newsletter due to personal circumstances, but we hope that she will be able to edit the September edition. The photographs in this Newsletter are all of undated Denbighshire cruck-framed houses.

Margaret Dunn

**NOTES FROM THE BRANCHES**

While Covid-19 has dominated all our lives, the local branches have been remarkably active and productive. The Parishes Project has made leaps and bounds. The ban on site visits and closure of libraries and archives has forced us all to make greater use of the internet (see the brief guide to free internet resources for house historians attached with this Newsletter). If we continue to make this sort of progress, it will really help to prepare the ground for future field work and visits when better times allow. Also, social occasions can continue, albeit 'virtually': quizzes in the N.E. Branch

**PREIFATRWYDD** – Mae'r tai a grybwyllir ar y wefan neu yn y Cylchlythyr hwn, ac sydd â chysylltiad â DHDC, yn breifat a dydyn nhw DDIM yn agored i'r cyhoedd ar unrhyw bryd.

**PRIVACY** – Houses mentioned on the website or in this Newsletter and /or linked with DOWH are private and are NOT open to the public at any time.

byddwn yn parhau i sicrhau cynnydd fel hyn, bydd yn ein helpu i fraenaru'r tir ar gyfer gwaith maes yn y dyfodol ac ymweliadau pan ddaw dyddiau gwell. Hefyd, mae achlysuron cymdeithasol yn gallu parhau, ond yn 'rhithiol': mae cwisiau yng Nghangen y gogledd ddwyrain wedi bod yn hynod boblogaidd er bod rhai wedi cwyno eu bod wedi peri gormod o waith meddwl! Yn ogystal â'r holl waith yma, dylid crybwyll y llwyddiannau canlynol. Mae Gill Jones wedi cyhoeddi erthygl gyda'r teitl '*The Spargo Family of Cornwall and North Wales*', yn y *Transactions of the Anglesey Antiquarian Society* ac mae Jenny Lees wedi cwblhau'r ail o dair erthygl – '*A Quest for Cymer in Edeirnion and its Barons Part 2; c 1700-c 1900*': mae'r rhan gyntaf yn y rhifyn cyfredol a chyhoeddir y lleill yn rhifyn nesaf cylchgrawn *Cymdeithas Hanes a Chofnodion Meirionnydd.* Hefyd, mae *Cynwyd Scrapbook Three* ar ein gwefan. Mae hanes Colomendy, Ysceifiog, wedi ei gwblhau gan Veronica Hay a Wally a Margaret Barr a gellir ei weld bellach yn llyfrgell gwefan DHDC. Mae Hazel Formby wedi bod yn gweithio ar hanes y teulu Fox o Ysceifiog, yn seiliedig ar wybodaeth yn Steegman J (1957) *A Survey of Portraits in Welsh Houses Vol 1* a gyhoeddir gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Fe'n hatgoffwyd gan Monica Norton bod cyfres 3 o *A House Through Time* yn cael ei ddangos ar BBC2 ar nosweithiau Mawrth. Seilir y rhaglen ar hanes tŷ capten llong ym Mryste, a gwnaed yr ymchwil gan David Olusoga, sydd hefyd yn cyflwyno'r rhaglen.

Peintiwyd y darlun isod yn ddiweddar gan yr arlunydd o ogledd Cymru Tomos ap Ryan (Instagram: tomos_ap_ryan). Y tŷ a welir yn y pellter yw Henblas, ger cartref Tomos ym Mhentre Helygain, Sir Y Fflint. Dyma adeilad rhestredig gradd II sy'n dyddio o'r 17eg ganrif ac, yn drist iawn, mae bellach mewn cyflwr adfeiliedig.



have proved popular although some complained that they had made people have to think too hard!

In addition to all this work, the following achievements should be mentioned. Gill Jones has published an article entitled '*The Spargo Family of Cornwall and North Wales'*, in the *Transactions of the Anglesey Antiquarian Society* and Jenny Lees has completed the second of three articles – '*A Quest for Cymer in Edeirnion and its Barons Part 2; c.1700-c.1900':* the first part is in the current issue and the others will be published in the next edition of the *Journal of the Merioneth Historical and Record Society*. Also, the *Cynwyd Scrapbook Three* is on our website. The house history of Colomendy, Ysceifiog, has been completed by Veronica Hay and Wally and Margaret Barr and is now in the library of the DOWH website. Hazel Formby has been working on the history of the Fox family of Ysgeifiog, based on information in Steegman J (1957) *A Survey of Portraits in Welsh Houses Vol.1.* published by the National Museum of Wales. Monica Norton reminded us that *A House Through Time* series 3 is showing on BBC2 on Tuesday evenings. The programme is based on the history of a sea captain's house in Bristol, researched and presented by David Olusoga.

The picture below has recently been painted by North Wales artist Tomos ap Ryan (Instagram: tomos_ap_ryan). The house seen in the distance is Henblas, near Tomos' home in Pentre Halkyn, Flintshire. It is a grade II listed building dating from the 17th century, and sadly is now in a very poor state of disrepair.



Eithin, Acrylig ar gynfas, 10 x 8 , 2020

Gorse, Acrylic on canvas, 10 x 8 , 2020

**PREIFATRWYDD** – Mae'r tai a grybwyllir ar y wefan neu yn y Cylchlythyr hwn, ac sydd â chysylltiad â DHDC, yn breifat a dydyn nhw DDIM yn agored i'r cyhoedd ar unrhyw bryd.

**PRIVACY** – Houses mentioned on the website or in this Newsletter and /or linked with DOWH are private and are NOT open to the public at any time.

**COLADU COFNODION YMWELIADAU Â THAI DHDC**

Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf cynhaliwyd nifer o ymgynghoriadau gydag ymddiriedolwyr ac ysgrifenyddion canghennau ar arf reoli i gofnodi'r holl ymweliadau â thai a gynhelid ers 2005 gan aelodau (Margaret Dunn yn bennaf!). Bydd angen ychwanegu gwybodaeth o'r Project Plwyfi yn y dyfodol, ynghyd ag ymweliadau newydd – os bydd rheoliadau Cofid-19 yn caniatáu i ni wneud hyn yn y pen draw! Ni chafwyd fawr o gynnydd oherwydd bydd angen i'r rhan fwyaf o'r data fod yn hygyrch a gyda dipyn dros 2,000 o ymweliadau â thai wedi digwydd, bydd angen fformat gwydn arnom na fydd angen ei newid yn y dyfodol agos. Hefyd, mae'r ymdrech o drosglwyddo gwybodaeth o hen daenlenni a dogfennau I'r fformat newydd, a gwirio'r cywirdeb, yn gryn orchwyl! Yn ffodus iawn, mae DHDC wedi derbyn grant yn ddiweddar gan Gronfa Marc Fitch tuag at dalu i rhywun wneud hyn.

Mae'r fformat newydd bellach wedi derbyn data o thua 140 o dai yr ymwelwyd â nhw ers 1 Ebrill 2018 ac mae'n cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd. Erbyn y bydd y Cylchlythyr hwn yn cael ei ddosbarthu bydd y data ar gael i ymddiriedolwyr, ysgrifenyddion canghennau ac aelodau eraill sydd â diddordeb er mwyn sicrhau ei fod yn ateb anghenion pawb – yna bydd yn bosib sicrhau ei fod ar gael yn fwy eang fel bod angen. Yn naturiol, bydd angen ychwanegu data newydd wrth i'r project fynd yn ei flaen.

Bydd y data ar gael ar Google Sheets – rhaglen daenlen ydy hon sy'n debyg iawn i Excel ac sydd ar gael ar-lein ar hyn o bryd i aelodau a wahoddir (ac am ddim!). Un o fuddion y Sheets yw fod modd eu gweld, eu trin a gwneud sylwadau arnyn nhw, ond ni ellir newid y copi meistr na'i ddileu'n ddamweiniol gan eraill, sydd felly yn gwarchod eu cywirdeb. Fel gydag Excel, mae'n bosib chwilio hefyd ar ddewislen y gellir ei thynnu i lawr felly does dim angen llawer o wybodaeth am sut i drin taenlenni i ddechrau. Mae'n debyg y bydd y project cyfan yn cymryd cryn amser ond bydd y cynnyrch yn y pen draw yn galluogi ateb llu o gwestiynau nad oes modd gwneud hynny ar hyn o bryd yn ogystal â chyflenwi gwybodaeth ar gyfer strategaeth DHDC yn y dyfodol.

John Townsend



**COLLATION OF RECORDS OF DOWH HOUSE VISITS**

Over the past year or so there have been a number of consultations with trustees and branch secretaries on a management tool to record all the visits that have been made since 2005 to houses by members (mainly Margaret Dunn!). Information from the Parishes Project will need to be added in the future, together with new visits – if Covid-19 regulations eventually allow us to do this! Process has been a bit slow because most of the data will need to be searchable and with probably well over 2,000 houses visited, we want to have a robust format that will not need changing in the foreseeable future. Also, the sheer effort of transferring old spreadsheet and documentary information to the new format, and checking the accuracy, is quite an undertaking! Luckily DOWH has recently obtained a grant from the Marc Fitch Fund towards paying someone to do this.

The new format has now been populated with data from some 140 houses visited since 1 April 2018 and is being finalised at the moment. By the time this Newsletter is sent out the data will have been made available to trustees, branch secretaries and other interested members to ensure it meets everyone's needs – it can then be made more widely available as necessary. Obviously new data will be added as the project progresses.

The data will be available on Google Sheets – this is a spreadsheet programme very much like Excel but is available in real time online to invited members (and is free!). One of the benefits of Sheets is that it can be viewed, manipulated and commented on, but the master copy cannot be altered or accidentally deleted by users, thus preserving its integrity. As with Excel, searches can be preset on pull down menus so little understanding of manipulating spreadsheets is needed to start with. The entire project will probably take some time but the end product will allow a multitude of questions to be answered that can't be at present as well as informing decisions on the future strategy of DOWH.

John Townsend



**PREIFATRWYDD** – Mae'r tai a grybwyllir ar y wefan neu yn y Cylchlythyr hwn, ac sydd â chysylltiad â DHDC, yn breifat a dydyn nhw DDIM yn agored i'r cyhoedd ar unrhyw bryd.

**PRIVACY** – Houses mentioned on the website or in this Newsletter and /or linked with DOWH are private and are NOT open to the public at any time.

**DIWEDDARIAD O'R PROJECT PLWYFI A CHYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL**

Mae'r argyfwng Cofid-19 wedi'n gorfodi i ddibynnu ar ein hadnoddau ein hunain – a rhai y rhyngrwyd - ac, er bod cau llyfrgelloedd ac archifau a'r gwaharddiad ar gyfarfodydd ac ymweliadau â thai yn rhwystredig, mae'n rhoi mwy o amser i ni fwrw golwg ar ein sefyllfa. Mae'n darparu cyfle da i ddiweddaru ein holl gofnodion a'u casglu mewn un lleoliad ar un bas data (gweler adroddiad John). Mae hefyd yn ein galluogi i fwrw trem yn ôl ar sut mae'r holl waith a gwblhawyd gennym (neu a gomisiynwyd) dros y blynyddoedd – hanes tai, cofnodi adeiladau, dyddio gyda chylchoedd coed ac rŵan y Project Plwyfi – wedi rhoi hwb i'n pwnc penodol. Beth mae hyn wedi ei ddweud wrthym nad oeddem yn ei wybod o'r blaen? A beth yw'r cwestiynau newydd sydd angen eu hateb? Mae tueddiadau amrywiol yn amlwg ond mae angen gwaith pellach i'w deall yn llwyr, megis ymddangosiad nifer sylweddol o dai bonheddwyr mawreddog o'r pymthegfed ganrif sy'n ymddangos, yn ôl eu manylion, fel pe baen nhw'n edrych yn ôl ar oes aur coll; a ffrwydrad yn y nifer o ffermdai ffrâm nenfforch sylweddol yn gynnar yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg ganrif hyd at ei chanol. Mae angen dilyn trywdd themâu eang fel y rhain ynghyd â syniadau ac archwiliadau newydd a fydd yn codi o'r Project Plwyfi. Pan fydd pethau'n sefydlogi a'r byd yn ymddangos yn fwy fel bywyd beunyddiol arferol, gallwn gychwyn ar godi'r arian i gefnogi rhaglenni lleol a rhanbarthol mwy eang.

Martin Cherry

**NODYN ATGOFFA GAN YR YSGRIFENNYDD AELODAETH**

Disgwylir tanysgrifiadau aelodaeth ar Ebrill 1af. aelodaeth unigol £15 p.a.; aelodaeth ar y cyd £20 p.a. Gwnewch yn siŵr eich bod yn adnewyddu ar amser i gadw eich buddiannau aelodaeth. Er mwyn ei gwneud yn haws, fe'ch anogir i gymryd archeb sefydlog (gweler y wefan am ffurflen). Fel arall anfonwch eich siec i Ysgrifennydd Aelodaeth DHDC, Caerfallen, Rhuthun, LL15 1SL (01824 704404)
membership@discoveringoldwelshhouses.co.uk.

**OS OES GENNYCH CHI DDIDDORDEB MEWN HEN DAI** ac os nad ydych eisoes yn aelod, pam na wnewch chi ystyried ymuno â'r Grŵp? Ceir manylion llawn a ffurflen gais ar ein gwefan.

**PARISHES PROJECT UPDATE & FUTURE PLANS**

The Covid-19 crisis has forced us back on our own resources - and those of the Internet - and, although the closure of libraries and archives and the moratorium on meetings and house visits is frustrating, it gives us all more time for reflection. It provides a good opportunity to bring all our records up-to-date and gathered in one place on a single database (see John's report). It's also allowing us to take stock of how all the work we've done (or commissioned) over the years - house histories, building recording, tree-ring dating and now the Parishes Project - has taken our subject forward. What has it told us that we didn't know before? And what are the new questions that need answering? Various trends are apparent but need further work if we are to fully understand them, such as the emergence of a substantial number of splendidly built gentry houses in the fifteenth century that appear in their details to look back to a lost golden age; and the explosion of substantial cruck-framed farmhouses in the early- to mid- sixteenth century. Broad themes such as these need to be pursued along with the new ideas and observations that will emerge from the Parishes Project. When things settle down and the world returns to something more like normality, we can begin to raise funds to support both local and larger regional programmes.

Martin Cherry

**REMINDER FROM THE MEMBERSHIP SECRETARY**

Membership subscriptions are due on April 1st. Individual membership £15 p.a.; Joint membership £20 p.a. Please make sure you renew on time to retain your membership benefits. To make it easier you are encouraged to take out a Standing Order (see website for form). Otherwise please send your cheque to DOWH Membership Secretary, Caerfallen, Ruthin, LL15 1SL (01824 704404)
membership@discoveringoldwelshhouses.co.uk.

**IF YOU ARE INTERESTED IN OLD HOUSES** and are not already a member, why not consider joining the Group? Full details and application form on our website.

www.discoveringoldwelshhouses.co.uk

MARC FITCH FUND

# DARGANFOD HEN DAI CYMREIG
# DISCOVERING OLD WELSH HOUSES

NODDWYR/PATRONS:
Syr/Sir Simon Jenkins, FSA, FRSL; Dr Eurwyn Wiliam, MA, PhD,

Gweledigaeth: Dathlu Treftadaeth Cymru drwy astudio tai traddodiadol a bywydau'r bobl oedd yn byw ynddyn nhw.

Celebrating Welsh Heritage through the study of traditional houses and the lives of the people who lived in them.

## CYLCHLYTHYR 34 Medi 2020

**GWEFAN**: http://discoveringoldwelshhouses.co.uk yw prif sianel cyfathrebu'r Grŵp. Ewch i'r wefan i weld ein llyfrgell sy'n tyfu a nodweddion eraill. Fel arfer mae'n cynnwys manylion digwyddiadau diweddar a digwyddiadau sydd ar y gweill.

## NEWSLETTER 34 Sept 2020

**OUR WEBSITE** http://discoveringoldwelshhouses.co.uk is the Group's main channel of communication. Please visit it to look at our growing library and other features. Normally it contains details of recent and forthcoming events.

**O'R GADAIR:**

Wel, mae'r amser yn llithro heibio ac mae rhyw fath o drefn unwaith eto ar fywyd bob dydd. Efallai ein bod rŵan yn gadael i'r erchyll Covid-19 reoli ein bywydau yn fwy nag y dylai, ond mae hefyd yn ymddangos fel synnwyr cyffredin i beidio ymgymryd â risg di-angen.

Yn ddiweddar cyfarfu y Pwyllgor Gwaith am ein cyfarfod Zoom electronaidd cyntaf. Credaf ein bod i gyd yn meddwl ei fod wedi mynd yn eithaf da, yn enwedig gan ein bod yn newydd i'r dechnoleg hon a'i bod wedi cymryd dipyn o amser i ni ddyfalu sut i'w defnyddio. Oherwydd bod cryn bellter rhwng aelodau'r grŵp ledled gogledd Cymru mae'r aelodau, yn aml, yn gorfod teithio'n bell ar ffyrdd cul a hynny ambell dro mewn tywydd gwael (ac mae hi'n ymddangos bod mwy o dywydd gwael y dyddiau yma) gyda phroblemau dod o hyd i leoliadau ar ben hynny. Byddwn yn parhau i arbrofi gyda'r cyfarfodydd Zoom yma ac rydw i hyd yn oed wedi gwirfoddoli i roi cynnig ar sgwrs ar ddiwedd mis Hydref, lle bydd yn bosibl cysylltu cymaint o bobl â phosib ac y gallaf eich diflasu i gyd gyda'r pethau sy'n fy amgylchynu yn fy swyddfa yma ym Mhlas Penmynydd.

Mae gwaith da yn cael ei gyflawni ond gan fod Margaret yn trafod hwn yn ei hadroddiad wna'i ddim ymhelaethu ar hynny; gobeithiaf eich bod i gyd yn iawn ac wedi goroesi'r stormydd anghyffredin yma ym mis Awst.

Richard Cuthbertson, chairman (richard@dmmwales.com)

**FROM THE CHAIR**

Well, time slips by and a certain amount of normality has returned. It may be now that we are allowing the dreadful Covid-19 to dominate our lives rather more than it should, but it also seems like common sense not to take unnecessary risks.

Last week the Executive Committee met for our first electronic Zoom meeting. I think we all thought it went rather well, especially because we were new to it and it took us a while to work out a smooth modus operandi. The long distances on narrow roads that seemed to be an inescapable part of running any group covering the whole of north Wales carry very considerable risks to lone drivers who might come across dreadful weather (of which we seem to get more and more) or even simple route finding problems. We will carry on experimenting with these Zoom meetings and I have even volunteered to try a talk at the end of October, where as many people as possible will all be linked up and I can bore you all with ancient reminiscing about the things that surround me in the study at Plas Penmynydd.

Good work is being done all round but Margaret covers it very well in her report so I will limit myself to hoping that you are all well and surviving the unusual August storms.

Richard Cuthbertson, chairman (richard@dmmwales.com)

**Y DIWEDDARAF GAN YR YSGRIFENNYDD:** Margaret Dunn

**Covid-19:** Gobeithiwn eich bod chi a'ch teuluoedd yn parhau i fod yn iach ac yn brysur yn ystod y cyfnod hwn o gyfyngiadau'r pandemig yma ac edrychwn ymlaen at agoriad graddol swyddfeydd cofnodion a llyfrgelloedd. Rydym yn gwerthfawrogi'r holl waith a wneir ar hyn o bryd gan aelodau wrth wirio'r Taenlen Rheolaeth Tai a datblygu'r Project Plwyfi, er gwaethaf yr amgylchiadau unigryw. Rydym wedi paratoi'r Cylchlythyr mwy hwn i chi ei fwynhau a chymryd rhan ym mhob dim sy'n digwydd.

**Project Plas Penmynydd:** Rydym yn falch iawn bod Hanes y Tŷ bellach ar gael yn ddwyieithog ar ein gwefan. Llawer o ddiolch i Ann Morgan am gydlynu'r project hwn ac i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac eraill am eu cefnogaeth ariannol a'u cymorth gyda'r project hwn.

**UPDATE FROM THE SECRETARY:** Margaret Dunn

**Covid-19:** We hope that you and your families continue to keep well and busy during this period of pandemic restrictions and we look forward to the gradual opening of record offices and libraries. We appreciate all the work currently being undertaken by members in checking the Houses Management Spreadsheet and developing the Parishes Project, despite the unique circumstances. This bumper Newsletter is for you to enjoy and get involved with all that is going on.

**Plas Penmynydd project**: We are delighted that this bilingual House History is now available on our website. Many thanks to Ann Morgan for co-ordinating the project and to the Isle of Anglesey Charitable Trust and others for financial support and help with this project.

**Vacancies:** DOWH is very grateful to John Townsend for his hard work for many years in his role as **Treasurer**, and for remaining in post for an additional year. He will be retiring as

**Swyddi gwag:** Mae DHDC yn hynod o ddiolchgar i John Townsend am ei holl waith ers blynyddoedd lawer yn ei rôl fel **Trysorydd**, ac am barhau yn ei swydd am flwyddyn ychwanegol. Bydd yn ymddeol fel Trysorydd ar 31 Mawrth 2021. Yn ddiweddar mae Irene Brightmer wedi ymddiswyddo fel **Golygydd y Cylchlythyr** a diolchwn iddi am ei chyfraniad pwysig wrth gasglu a rhannu gwybodaeth ar gyfer aelodau a thu hwnt. Gofynnwn i chi i gyd ein helpu i ddod o hyd i Drysorydd a Golygydd Cylchlythyr newydd; does dim rhaid i'r ddau fod yn rhan o DHDC eisoes. Os gwelwch yn dda, holwch yn eich cymunedau a chysylltwch â mi gyda'ch awgrymiadau.
Secretary@discoveringoldwelshhouses.co.uk

**Diweddaru a Rhannu Ymchwil:**

Yn ogystal â datblygu'r Daenlen Rheolaeth Tai o adeiladau yr ymwelwyd â nhw a'r cofnodion newydd drwy'r **Project Plwyfi**, mae'r gwaith o ddiweddaru pellach ar gofnodion yn cael ei wneud gan nifer o aelodau sy'n rhannu eu hymchwil yn gysylltiedig â DHDC. Ar ddiwedd yr 1990au a dechrau'r 2000au ymgymerodd Margaret Dunn ag ymchwil manwl i stadau eang **Craflwyn**, Beddgelert, ac **Egryn**, Llanaber, a ddaeth oddeutu 1700 yn rhan o stad **Caerberllan**, Llanfihangel-y-Pennant, Sir Feirionnydd; mae Craflwyn ac Egryn bellach ym meddiant yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac nid ydyn nhw ar agor i'r cyhoedd. Roedd y tair stad hefyd yn berchen ar nifer o ffermydd sydd, ynghyd â daliadau fferm eraill, wedi eu hymchwilio i raddau gwahanol gyda'r adnoddau oedd ar gael ar y pryd. Hyd yma mae 24 o hanesion tai rhannol wedi eu paratoi ar gyfer ardal **Dyffryn Ardudwy** o Sir Feirionnydd, llawer ohonyn nhw'n rhan o stad Egryn. Bydd y rhain cyn bo hir yn cael eu cynnwys ar wefan DHDC. Mae aelodau eraill yn anfon eu hymchwil i ysgrifenyddion canghennau ar gyfer eu rhannu.

Margaret Dunn. Secretary@discoveringoldwelshhouses.co.uk.


Egryn

**Gweithgareddau / Digwyddiadau o Fedi 2020 hyd Ebrill 2021**

Yn sesiynau diweddaru'r Pwyllgor Gwaith (ar Zoom) ym mis Awst ac Ymddiriedolwyr (drwy e-bost) trafodwyd adroddiadau diweddaru rheolaidd ar weithgareddau ac ariannu, ond canolbwyntiwyd yn bennaf ar gynllunio ffordd briodol ymlaen i DHDC o Fedi 2020 hyd o leiaf Ebrill 2021. Amlygir y pwyntiau allweddol isod ac mae'r adroddiadau llawn gan ysgrifenyddion y canghennau. Bydd rôl canghennau yn parhau i fod yn hanfodol wrth gynnal cyswllt gydag aelodau a'u diddordeb a'u rhan yn yr uchod.

**Project Plwyfi:** Mae'r gwaith allweddol hwn yn parhau a gobeithiwn y bydd mwy o aelodau yn ymchwilio eu plwyfi wrth i'r hydref agosáu gyda chymorth ysgrifenyddion canghennau. Llawer o ddiolch i Martin Cherry am ei erthygl tua diwedd y Cylchlythyr hwn.

**Taenlen Rheolaeth Tai DHDC:** Mae pob cangen ar hyn o bryd yn gwirio cofnodion eu hardal ar gyfer 2018-2020. Yn ystod mis Medi gobeithiwn roi cychwyn ar ychwanegu'r cofnodion cyn 2018 ac rydym yn cydnabod grant ar gyfer hyn gan Gronfa Marc Fitch.

**Cyfarfodydd Zoom:** Rydym yn edrych ar y posibilrwydd o gynnal ambell i gyfarfod Zoom ar bynciau yn ymwneud â diddordebau amrywiol DHDC. Cysylltwch â mi os hoffech

treasurer on 31 March 2021. Irene Brightmer has recently resigned as **Newsletter Editor** and we thank her for her important contribution in disseminating information to members and beyond. We ask you all to help us find a new Treasurer and Newsletter Editor; neither need to be currently involved with DOWH. Please ask people in your communities and contact me with suggestions.
Secretary@discoveringoldwelshhouses.co.uk

**Updating and Sharing Research:**

In addition to developing the Houses Management Spreadsheet of visited buildings and the new recordings through the **Parishes Project,** further updating of records is being undertaken by a number of members who are sharing their DOWH-related researches. In the late 1990s and early 2000s Margaret Dunn undertook detailed research into the extensive estates of **Craflwyn,** Beddgelert, and **Egryn**, Llanaber, which circa 1700 became part of the **Caerberllan**, Llanfihangel y Pennant, Merionethshire estate; **Craflwyn** and Egryn are now National Trust properties not open to the general public. All three estates also owned numerous farms which, with other local farm holdings, have been researched to a greater or lesser degree with resources then available. To date 24 partial house histories have been prepared for the **Dyffryn Ardudwy** area of Merionethshire, many of which were part of the Egryn estate. These will soon be included on the DOWH website. Other members are forwarding their research to branch secretaries for sharing.

Margaret Dunn. Secretary@discoveringoldwelshhouses.co.uk.

**Activities / Events from September 2020 to April 2021**

In the August Executive (via Zoom) and Trustees (via email) updating sessions routine update reports on activities and finance were covered, but the main focus has been on planning a suitable way forwards for DOWH from September 2020 until at least April 2021. The key points are given below and branch secretaries have the full reports. The role of branches will continue to be vital in maintaining contact with, and the interest and involvement, of members.

**Parishes Project**: This key work continues and we hope that now autumn is approaching more members will research their parishes with help from branch secretaries. Many thanks to Martin Cherry for his article near the end of this Newsletter.

**DOWH Houses Management Spreadsheet**: All branches are currently checking their area's entries for 2018-2020. During September we hope that the adding of the entries prior to 2018 will commence and we acknowledge the grant for this from the Marc Fitch Fund.

**Zoom meetings:** We are looking into the feasibility of holding occasional Zoom meetings on topics related to DOWH's varied interests. Please contact me if you would like to offer a topic in English or Welsh. Further details will be circulated in due course.

Please contact branch secretaries / the secretary with **any additional ideas** of what DOWH might do until we can again hold meetings and visits. We do want to involve members as much as possible.

PREIFATRWYDD – Mae'r tai a grybwyllir ar y wefan hon neu yn y Cylchlythyr hwn ac sydd â chysylltiad â DHDC yn breifat a dydyn nhw **DDIM yn agored i'r cyhoedd ar unrhyw adeg**

PRIVACY – Houses mentioned on the website or in this Newsletter and /or linked with DOWH are private and are **NOT open to the public at any time**

gynnig pwnc yn y Saesneg neu'r Gymraeg. Byddwn yn dosbarthu manylion pellach yn y man.
Cysylltwch ag ysgrifenyddion canghennau neu'r ysgrifennydd gydag **unrhyw syniadau ychwanegol** o'r hyn all DHDC ei wneud nes y byddwn unwaith eto mewn sefyllfa i gynnal cyfarfodydd ac ymweliadau. Hoffem i gymaint o aelodau â phosib gymryd rhan.

**Diweddariad ar y Llyfr Nenffyrch:** *Mae Cruck Building: A Survey*, a gyhoeddwyd ddiwedd y llynedd gyda chyfraniadau pwysig gan dri o'n haelodau (Martin Cherry, Peter Thompson a Richard Suggett) wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Colvin am weithiau cyfeirio rhagorol. Trefnir y gystadleuaeth hon gan Gymdeithas Haneswyr Pensaernïol Prydain Fawr ac fe'i hystyrir i fod yn 'un o wobrau pwysicaf hanes pensaernïol'. Mae copïau ar gael am bris gostyngol arbennig (£35 yn lle £50) gan shaun@shauntyas.myzen.co.uk. I hawlio'r gostyngiad mae angen i chi adael iddo wybod eich bod yn aelod o DHDC, cymdeithas gyswllt i'r Grŵp Pensaernïol Gwerinol.

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru:** Ar 22 Awst cyhoeddwyd bod y Llyfrgell yn falch o gyhoeddi y bydd "yn ail-agor un o'i hystafelloedd darllen o ddydd Mawrth, 1 Medi 2020. Wrth groesawu ei haelodau'n ôl, bydd y Llyfrgell yn darparu gwasanaeth cyfyngedig a mynediad i'w chasgliadau, gyda mesurau newydd mewn grym i warchod darllenwyr, ymchwilwyr a staff. Bydd hyn yn golygu oriau agor cyfyngedig, system archebu ar gyfer ymwelwyr, llwybrau un-ffordd drwy gydol yr adeilad, pellter cymdeithasol, a threfn glanhau rheolaidd a thrylwyr. Hefyd, bydd y Llyfrgell yn gweithredu system gwarantîn i'n casgliadau wrth i ni ymdrechu i ddarparu mynediad diogel iddyn nhw. I ddechrau, dim ond gwasanaethau ystafell ddarllen fydd ar gael o fewn yr adeilad. Fodd bynnag, fe all y cyhoedd barhau i chwilio casgliadau'r Llyfrgell ar ei gwefan a defnyddio ei hystod o adnoddau ar-lein. Mae'r Llyfrgell yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ail-agor ei harddangosfeydd a pharhau â'r gwasanaeth addysg a rhaglen wirfoddoli yn y dyfodol agos. Am nawr bydd Caffi Pen Dinas yn parhau ar gau; fodd bynnag, mae'n bosib y bydd gwasanaeth cyfyngedig ar gael o ganol Medi ymlaen. Mae gwasanaethau reprograffig masnachol y Llyfrgell wedi bod ar gael ers 2 Awst 2020".
**Archif y Sir**. Ar ddiwedd Awst cafwyd datganiad ar wefan Swyddfeydd Cofnodion Gwynedd bod paratoadau yn cael eu gwneud i agor i'r cyhoedd. Mae'n debyg bod siroedd eraill yn paratoi cynlluniau tebyg.
**FamilySearch.org** Mae Janice wedi cael erthygl ddefnyddiol am Fanylder Chwiliad Teuluol o Gylchlythyr Durham RO Ar-lein, ar gael mae'n debyg o ne_ancestors@ndfhs.org.uk.

**NEWYDDION O'R CANGHENNAU**
**Cangen Ynys Môn: Project Plwyfi** gan Sue Hurst a Peter Masters
Ni fu unrhyw gyfathrebu diweddar gydag aelodau'r gangen. Gyda chymorth aelodau eraill mae Terry Williams bellach wedi ymchwilio holl blwyfi Ynys Môn wrth ddefnyddio'r gwefannau basdata amrywiol ac mae hefyd wedi dod o hyd i luniau lle'r oedd rhai ar gael. Mae aelodau'r gangen yn edrych ymlaen at ymweld â rhai o'r tai a ymchwiliwyd yn y dyfodol.

**Cruck Book update**: *Cruck Building: A Survey*, published at the end of last year with major contributions from three of our members (Martin Cherry, Peter Thompson and Richard Suggett), has been shortlisted for the Colvin Prize for outstanding works of reference. This competition is organised by the Society of Architectural Historians of Great Britain and is considered to be 'one of the most important prizes in architectural history'. Copies are available at a special discounted price (£35 instead of £50) from shaun@shauntyas.myzen.co.uk. To get the discount you need to tell him that you are a member of DOWH, a Vernacular Architecture Group affiliated society.

**The National Library of Wales:** On 22 August 2020 it was announced that the NLW is pleased to announce that "it will reopen one of its reading rooms from Tuesday, 1 September 2020. By welcoming back its users, the Library will provide a limited service and access to its collections, with new measures in place to protect readers, researchers and staff. This will mean limited opening hours, booking system for visitors, one-way routes throughout the building, social distancing, and a regular and thorough cleaning schedule. In addition, the Library will operate a quarantine system for our collections as we endeavour to provide safe access to them. Initially, only reading room services will be available within the building. However, the public may continue to search the Library's collections on its website and make use of its range of online resources. The Library is exploring the possibility of reopening its exhibitions and continue the education service and volunteering programme in the near future. For the time being Caffi Pen Dinas will remain closed, however, it is possible that a limited service will be available from mid-September onwards. The Library's commercial reprographic services have been available since 1 August 2020".
**County Archives**. In late August the Gwynedd Record Offices website stated that preparations are being made to open to the public. Other counties are probably making similar plans.
**FamilySearch.org** Janice has obtained a helpful article about Family Search Accuracy from the Durham RO Online Newsletter, probably available from ne_ancestors@ndfhs.org.uk.

**NEWS FROM THE BRANCHES**
**Anglesey Branch: Parishes Project** by Sue Hurst and Peter Masters.
There has not been any recent communication with branch members. Terry Williams with help from other members has now researched all the Anglesey parishes using the various database websites and has also found photos for buildings where available. Branch members look forward to visiting some of the researched houses in the future.
There were two training sessions held in the Archives at Llangefni before March 2020. There are 77 Parishes listed for Anglesey. All of those parishes have been searched. Several people volunteered but principally by Sue Hurst, Ian Thomas and Terry Williams who have searched all of the parishes, 10 of which returned "No suitable houses". Within the remaining 67 parishes, 117 houses were identified as being suitable

Cynhaliwyd dwy sesiwn hyfforddi yn Archifau Llangefni cyn Mawrth 2020. Rhestrir 77 o Blwyfi ar gyfer Ynys Môn. Mae pob un o'r plwyfi hynny wedi eu harchwilio. Gwirfoddolodd amryw o bobl ond gwnaed y gwaith yn bennaf gan Sue Hurst, Ian Thomas a Terry Williams sydd wedi chwilio'r holl blwyfi. Cafwyd nad oedd 'dim tai priodol' mewn 10 o'r rhain. O fewn y 67 plwyf sy'n weddill, adnabuwyd 117 o dai fel rhai'n briodol ar gyfer ymchwil pellach. Dengys croes-gyfeirio gyda'n basdata bod 83 o adeiladau Rhestredig I neu II* ac 69 wedi eu Rhestru gan NPNR o fewn y rhestr honno o 177 o dai.

Aseswyd 55 o dai yn flaenorol. Penderfynwyd nad oedd 44 ohonyn nhw'n addas gan nad oedd ynddyn nhw bren priodol neu roedd wedi ei 'dyfu'n gyflym' neu'n Amrywiol. Wrth ddefnyddio dendrocronoleg, dyddiwyd 10 o dai gyda'r dyddiadau'n amrywio o 1465-1638. Ni ddyddiwyd dau, sy'n gadael 60 o dai i'w hystyried ymhellach. Mae llawer nad ydyn nhw eto wedi derbyn ymweliad.

**Cangen Conwy: Llanddulas a Rhyd y Foel** gan Gill Jones

Rydw i wedi bod yn cymryd rhan mewn project ar y cyd gyda Wendy Williams, o'n Cyngor Cymuned, i gynhyrchu tri llyfr am Blwyf Sifil Llanddulas a Rhyd y Foel. Trefnwyd yr ariannu eisoes i dalu am gost yr argraffu. Rydw i eisoes wedi cwblhau'r llyfr cyntaf am ddatblygiad addysg a'r ysgolion amrywiol sydd wedi bodoli yn y plwyf – gwladol, preifat, gwaddol a chrefyddol. Ar ddiwedd y llynedd, gweithiodd Wendy ar broject ffotograffig gyda rhai o ddisgyblion Blwyddyn 6 ysgol y pentref. Bu'r plant yn tynnu lluniau rhai o'r hen adeiladau a chymharu'r rhain gyda hen ffotograffau o'r un adeiladau. O ganlyniad crëwyd llyfr gyda lluniau o'r enw 'Ddoe a Heddiw/Then and Now'. Ar hyn o bryd rydw i'n gweithio ar y trydydd llyfr am hanes tai'r 17eg ganrif hyd at ddechrau'r 20fed ganrif.

Nododd Edward Llwyd bump neu chwech bwthyn a thŷ'r felin yn Llanddulas yn ei *Parochial Queries* yn 1699. Enwir pedwar tŷ – Y Genffos (Bryn Dulas heddiw), Y Tŷ Gwyn, Y Tŷ Gwyn yn ymyl Geuffos (Geuffos Bach heddiw) a Tŷ yn Glan yr Afon bell. Dim ond y tri cyntaf sy'n bodoli heddiw. Roedd Rhyd y Foel (trefgordd Bodlyman) yn rhan o Fetws yn Rhos ar y pryd. Nododd Llwyd bod saith tŷ yn y plwyf hon ond dim un ym Modlyman.

Mae nifer fechan o dai eraill yn bodoli o'r 17eg ganrif - Y Felin, Braenar Caled a Thŷ Ucha yn Llanddulas; a Melin y Cwymp, Borth Wyrd ac Y Foel yn Rhyd y Foel. Y prif dirfeddianwyr oedd Wynniaid Garthewin a Bronywendon, y teulu Hesketh, Gwrych, a'r teulu Hughes o Ginmel.

Mae o leiaf un-ar-bymtheg o dai unigol ac wyth rhes o fythynnod wedi diflannu yn eithaf diweddar. Chwalwyd rhai pan wnaethpwyd gwelliannau i'r hen ffordd drwy'r pentref wedi ymddangosiad ceir modur a bysiau yn gynnar yn yr 20fed ganrif; rhai wrth i'r gwaith chwarel ehangu, eraill pan grëwyd yr A55, a chollwyd rhai pan ollyngwyd dau o ffrwydron tir ar y pentref gan awyrennau o'r Almaen wrth iddyn nhw ddychwelyd o gyrch ar Lerpwl yn 1940. Tyfodd y pentref mewn maint yn bennaf oherwydd bod angen

for further research. Cross reference with our database shows that within that list of 117 houses, 83 are Listed I or II* buildings and 69 have a NPNR Listing.

55 houses have previously been assessed. 44 of those were deemed unsuitable by virtue of having either no suitable timber or it being "Fast grown" or Misc. Using dendrochronology, 10 houses were dated with date ranges from 1465- 1638. Two were undated, which leaves 60 houses for further consideration. Many have not yet been visited.

**Conwy Branch: Llanddulas and Rhyd y Foel** by Gill Jones

I have been involved in a joint project with Wendy Williams, from our Community Council, to produce three books about the Civil Parish of Llanddulas and Rhyd y Foel. Funding has already been arranged to cover the cost of the printing. I have completed the first book about the development of education and the various schools which have existed in the parish – state, private, endowed and religious. At the end of last year, Wendy carried out a photographic project with some of the Year 6 pupils from the village school. The children took photographs of some of the old buildings and these were matched with old photographs of the same buildings. This has resulted in a pictorial book entitled "Then and Now". I'm currently working on the third book about the history of the houses from the 17th century to the early 20th century.

Edward Lhuyd noted five or six cott' and a mill house in Llanddulas in his Parochial Queries in 1699. Four houses are named - Y Genffôs (now Bryn Dulas), Y Tŷ Gwyn, Y Tŷ gwyn yn ymil Geuffos (now Geuffos bach) and Tŷ yn Glan yr Afon bel. Only the first three now remain. Rhyd y Foel (the township of Bodlyman) was part of Bettws yn Rhos at the time. Lhuyd noted seven houses in this parish but none in Bodlyman.


Bronywendon

There are a small number of other existing 17th century houses - Y Felin, Braenar Caled and Tŷ Ucha in Llanddulas; and Melin y Cwymp, Borth Wyrd and Y Foel in Rhyd y Foel. The main landowners were the Wynnes of Garthewin and Bronywendon, the Hesketh of Gwrych, and the Hughes of Kinmel.

At least sixteen individual houses and eight rows of cottages have disappeared in recent times. Some were demolished when the old road through the village was improved after the appearance of motor cars and coaches in the early 20th century; some as the quarrying enterprises were expanded; others when the A55 was constructed and a few were lost when two landmines were dropped on the village by German aircraft returning from a raid on Liverpool in 1940. The village grew in size mainly as a result of the quarries and lime kilns requiring workers. By 1831, there were 157 houses and 307 people in Llanddulas, plus a few more houses and their occupants in Rhyd y Foel. In 2011, the population of the Llanddulas and Rhyd y Foel Civil Parish was recorded as 1,542 persons in 713 houses.

gweithwyr ar y chwareli a'r odynnau calch. Erbyn 1831, roedd 157 tŷ a 307 o bobl yn Llanddulas, yn ogystal ag ychydig mwy o dai a'u preswylwyr yn Rhyd y Foel. Yn 2011, cofnodwyd bod poblogaeth Plwyf Sifil Llanddulas a Rhyd y Foel yn 1,542 o bobl mewn 713 o dai.

**Cangen Sir Ddinbych: Hanes Cudd Cwm Main** gan Jenny Lees

I'w gyhoeddi cyn bo hir mae ein hanes DHDC (1) o Gwernbraichdwr, a saif yng nghwm cudd hardd Cwm Main, gyda dyddiad coed a gwympwyd yng ngaeaf 1553/54 ac a elwid ar un pryd yn Gwern y Brechtwn. Arweiniodd ymchwilio ei hanes i Bennsylvania, wrth i Glenn (1896) (2) gasglu cartau achau o lawysgrifau Cymreig hynafol a dogfennau teuluol a gludwyd yno gan wladfawyr o Sir Feirionnydd. Dioddefodd Crynwyr o Brydain erledigaeth lem i fygu anghydffurfiaeth, ac ymfudodd llawer o blwyfi o amgylch y Bala er mwyn osgoi cael eu carcharu, atafaeliad eu heiddo a hyd yn oed y bygythiad o farwolaeth fel bradwyr. Bu farw Robert Owen, yr oedd Glenn yn credu ei fod yn ŵyr i John Lloyd o Gwern y Brychdwn, ym Mhennsylfania yn 1697 a dywedir ei fod wedi ei gludo i garchar Dolgellau yn yr 1670au oherwydd ei gredoau. Yn rhyfedd, mae Glenn hefyd yn sôn am Gwern y Brychdwn fel 'alias Owlars Brindle Bush'. O ystyried y gair 'brindle' neu frych yn y Gymraeg mewn cysylltiad â'r gair 'owler', sef rhywun a oedd yn allforio gwlân neu ddefaid yn anghyfreithlon, tybed a oedd gan Gwernbraichdwr gysylltiadau gyda'r arfer yma ar un pryd?


Gwernbraichdwr

Tŷ neuadd ffrâm-nenfforch agored ar un pryd gyda phreniau to sy'n awgrymu ei adeiladu oddeutu 1531 (3) yw Rhydywernen, ffermdy arall sydd wedi goroesi yng Nghwm Main. Gerllaw, heb ei ddyddio, mae Coed-y-Bedo, a gysylltid ar un pryd gyda'r bardd Bedo Aeddren (yn barddoni oddeutu 1500). Efallai y dylid archwilio hanes y tŷ yma hefyd, gan fod braslun llinell gan Peter Smith yn awgrymu ei fod o bosib yn adeilad ffrâm bren (4) yn wreiddiol. Mae Llwyn Onn, a ystyrir gan RCAHMW i ddyddio o ddiwedd yr 17eg ganrif, ond gyda rhannau o gyplau to cynharach, yn un o sawl ffermdy sydd ar hyn o bryd yn adfail yng Nghwm Main, ond a oedd yn amlwg yn ffermdy sylweddol ar un cyfnod.


Coed-y-Bedo


Llwyn Onn

NODIADAU: (1). Jenny Lees a Pam Buttrey (2020) History of Gwernbraichdwr, Cwm Main, Corwen. (2). Thomas Allen Glenn (1896) Merion in the Welsh Tract - with sketches of the townships of Haverford and Radnor. (3). Martin Cherry a Dinah Pickard, 2015, http://discoveringoldwelshhouses.co.uk/library/Hhistory/ (4). Peter Smith (1988) Houses of the Welsh Countryside: A Study in Historical Geography, 2il rifyn; t 211. (Lluniau pellach o Gwm Main ar gael ar leesjenny@gmail.com)

**Denbighshire Branch: Hidden Histories of Cwm Main**
by Jenny Lees

Soon to be published is our DOWH history (1) of Gwernbraichdwr, lying in the beautiful hidden valley of Cwm Main, with a tree-felling date of winter 1553/54 and once known as Gwern y Brechtwn. Researching its history led to Pennsylvania, as Glenn (1896) (2) compiled pedigrees from both ancient Welsh manuscripts and family documents taken there by Merionethshire settlers. British Quakers were harshly persecuted to suppress nonconformity, and many from parishes around Bala emigrated to escape imprisonment, confiscation of property and even threatened death as traitors. Robert Owen, believed by Glenn to be the grandson of John Lloyd of Gwern y Brychdwn, died in Pennsylvania in 1697 and is said to have been committed to Dolgellau gaol in the 1670s on account of his beliefs. Curiously, Glenn also records mention of Gwern y brychdwyn as 'alias Owlars Brindle Bush'. As the word *brych* can mean brindled in Welsh and owler is a late C17th term for someone engaged in illegal exportation of wool or sheep, could Gwernbraichdwr possibly have once had such associations?

Rhydywernen, another surviving Cwm Main homestead, is a cruck-framed former open hall house with roof timbers suggesting construction in around 1531 (3). Nearby undated Coed-y-Bedo, once associated with the poet Bedo Aeddren (active in around 1500) may also merit a DOWH house history, as a line drawing by Peter Smith suggests that it could have originally been half timbered (4). Llwyn Onn, considered by RCAHMW to be late C17th but incorporating parts of earlier roof trusses, is one of several farmsteads currently derelict in Cwm Main, but obviously once a substantial farmstead.

NOTES: (1). Jenny Lees and Pam Buttrey (2020) History of Gwernbraichdwr, Cwm Main, Corwen. (2). Thomas Allen Glenn (1896) Merion in the Welsh Tract - with sketches of the townships of Haverford and Radnor. (3). Martin Cherry and Dinah Pickard, 2015, http://discoveringoldwelshhouses.co.uk/library/Hhistory/ (4). Peter Smith (1988) Houses of the Welsh Countryside: A Study in Historical Geography, 2nd edition; p.211. (Further Cwm Main images available from leesjenny@gmail.com)

PREIFATRWYDD – Mae'r tai a grybwyllir ar y wefan hon neu yn y Cylchlythyr hwn ac sydd â chysylltiad â DHDC yn breifat a dydyn nhw **DDIM yn agored i'r cyhoedd ar unrhyw adeg**

PRIVACY – Houses mentioned on the website or in this Newsletter and /or linked with DOWH are private and are **NOT open to the public at any time**

**Diweddariad o Gangen Meirionnydd:** gan John Townsend

Cyn Covid-19 roedd ein grŵp bach o aelodau brwdfrydig wedi ymchwilio i raddau amrywiol 245 o dai/adfeilion/safleoedd a oedd wedi eu hadnabod ac wedi eu dyddio cyn 1700 mewn 7 o'n 26 plwyf. Ymwelwyd ag oddeutu 30 o'r rhain a thynnwyd ffotograffau ohonyn nhw. Mae Meirionnydd yn ffodus oherwydd mae dogfennau ar gael sy'n ei gwneud yn weddol rhwydd adnabod tai sy'n dyddio cyn 1700 – y broblem ydy'r nifer ohonyn nhw yr ydym yn dod ar eu traws! Rydym wedi parhau i ymchwilio o'n cartrefi a chwblhawyd gwaith da iawn yn Ffestiniog a Maentwrog. Mae'r gwaith yn Llanelltyd wedi ei ehangu. Mae un o'n haelodau wedi ymweld ag ychydig o dai yn ardal Harlech a daeth un arall o hyd i adfail gyda chwpl to yn dal i sefyll wrth iddi grwydro ar ei theithiau cerdded.

Fel rhan o'r ymchwil i dai yn Llanelltyd mae fy ngwraig a minnau wedi rhoi cynnig ddwywaith ar gyrraedd adfeilion Glan-llyn-y-forwyn ym mherfeddwlad Cwm Camlan i'r gorllewin o Ganllwyd – crybwyllwyd y tŷ yn Rholiau Rhenti 1623 ac roedd rhywun yn byw ynddo hyd yr 1890au. Hefyd, dyma lle'r oedd un o gyndeidiau aelod o Feirionnydd ac aelod o Ynys Môn yn byw. Ar ein cynnig cyntaf o'r gorllewin diflannodd y llwybr yn y gors. Ar yr ail gynnig o'r de roedd plannu coed gan yr hen Gomisiwn Coedwigaeth wedi dileu'r llwybr. Wrth I gyfyngiadau Covid-19 lacio rhoddodd Martin Cherry a minnau drydydd cynnig wrth agosáu o Ganllwyd yn y dwyrain – roedd hyn yn llwyddiant ond doedd y llwybr ddim yn hawdd. Tynnwyd lluniau o'r adfail (yn cynnwys y golygfeydd ohono) a lluniwyd cynllun. Anfonwyd yr wybodaeth am gartref eu cyndeidiau i'r ddau aelod. Hyd yn oed yn ei anterth byddai wedi bod yn anodd cyrraedd y fan hon – ni fyddai neb wedi gallu picio i Ganllwyd am iaeth!

Wrth i'r hydref agosáu gobeithiwn drefnu mwy o'r mathau yma o ymweliadau oherwydd mae'n bwysig cofnodi adfeilion lle gellir parhau â phellter cymdeithasol. Un o'r pethau rydym yn ei fethu yw ein cyfarfodydd a'r gallu i rannu gwybodaeth yn hawdd. Er bod Archifau Dolgellau yn gobeithio ail-agor yng nghanol Medi bydd cyfarfodydd corfforol yn parhau i fod yn anodd. Rydym wedi ystyried defnyddio Zoom ond dydy dau o'n haelodau prysur ddim yn defnyddio'r math yma o dechnoleg ar hyn o bryd er mai dyma'r ffordd ymlaen, mae'n debyg. Os oes gan unrhyw un sy'n darllen hwn ddiddordeb mewn ymchwilio plwyf ym Meirionnydd byddem yn falch o glywed oddi wrthych. Does dim rhaid crwydro'r bryniau!

**Cangen GDd Cymru: Rhai Gweithgareddau Diweddar** gan Margaret a Wally Barr gyda Gina Skyner

Yn yr ychydig o fisoedd diwethaf mae sawl aelod o gangen GDd Cymru wedi parhau â'u gwaith ar ymchwil hanes tai, ac wedi gwneud sawl darganfyddiad difyr yn y broses. Yng Nghaerwys, mae ymchwil gan Sarah Maitland-Jones i Henllys wedi codi cwestiynau difyr am gynllun grid y dref ei hun. Os oes gan unrhyw un wybodaeth benodol am hyn cofiwch gysylltu a gallwn anfon eich gwybodaeth ymlaen i Sarah.

Mae Gina Skyner a Margaret Barr wedi gallu parhau gyda hanes Terfyn, Trelawnyd, gyda'i gyrn simnai enfawr, drwy



Terfyn

**Merioneth Branch Update**: by John Townsend

Before Covid-19 our small group of intrepid members had researched to various degrees 245 identified houses/ruins/sites that are pre-1700 in 7 out of our 26 parishes. 30 or so had been visited and photographed. Merioneth is fortunate to have documents available which makes it relatively easy to identify pre-1700 houses – the downside is the number of them we are finding! We have continued with armchair research and some very good work has been done in Ffestiniog and Maentwrog. The work in Llanelltyd has been expanded. One of our members has visited a few houses in the Harlech area and another found a ruin with a cruck still standing on her walks.

As part of the research into houses in Llanelltyd my wife and I have tried twice to get to the ruins of Glan-llyn-y-forwyn in the hinterland of Cwm Camlan west of Ganllwyd – it was a house mentioned in the Rent Rolls of 1623 and lived in up to the 1890s. Also it was where the ancestors of a Merioneth member and an Anglesey member lived. On our first attempt from the west the footpath disappeared into the bog. On the second attempt from the south the old Forestry Commission tree planting had eradicated the path. As Covid-19 restrictions relaxed Martin Cherry and I attempted a third approach from Ganllwyd in the east - this was successful but the path was just about walkable. The ruin was photographed (including the views from it) and a plan made. Both members were sent the information on their ancestors' des res. Even in its heyday this would have been a difficult place to get to – no popping down to Ganllwyd for the milk!

As we go into autumn we hope to do more of these sorts of expeditions as ruins are important to record and social distancing can be maintained. One of the things we miss is our meetings and being able to exchange information easily. Although Dolgellau Archives hope to open in mid-September physical meetings will continue to be difficult. We have considered using Zoom but two of our active members don't use this technology at present but it's probably the way forward. If anyone reading this is interested in researching a parish in Merioneth we would love you to get in touch. Trudging over hillsides is not mandatory!

**NE Wales Branch: Some Recent Activities** by Margaret and Wally Barr with Gina Skyner

In the last few months several members of the NE Wales branch have continued their work on house history research, making some interesting discoveries in the process. In Caerwys, research by Sarah Maitland-Jones into Henllys (the Old Courthouse) has raised some interesting questions about the grid layout of the town itself. If anyone has specific knowledge about this please get in touch and we can pass your information on to Sarah.

Gina Skyner and Margaret Barr have been able to carry on with the history of Terfyn, Trelawnyd, with its huge chimney stack, with phone calls, emails and a socially-distanced meeting in the garden. Gina has produced several excellent sketches of the house exterior and interior features, including details of the carved boss discovered by

PREIFATRWYDD – Mae'r tai a grybwyllir ar y wefan hon neu yn y Cylchlythyr hwn ac sydd â chysylltiad â DHDC yn breifat a dydyn nhw **DDIM yn agored i'r cyhoedd ar unrhyw adeg**

PRIVACY – Houses mentioned on the website or in this Newsletter and /or linked with DOWH are private and are **NOT open to the public at any time**

gyfrwng galwadau ffôn, e-byst a chyfarfod gan gadw pellter cymdeithasol yn yr ardd. Mae Gina wedi cynhyrchu sawl braslun ardderchog o du allan y tŷ a nodweddion mewnol, yn cynnwys manylion y bwlyn cerfiedig a ddarganfuwyd gan Ric Tyler yn yr atig (wrth gwblhau ei adroddiad pensaernïol) – gan ddarparu tystiolaeth ei bod yn bosib gweld y trawst hwn yn wreiddiol o'r ochr isaf iddo. Mae Gina a Margaret wedi penderfynu y defnyddir y brasluniau yma, ac eraill, fel darluniau yn hanes terfynol Terfyn. I'w gwblhau bydd angen i ni aros i'r Archifdy ail-agor.



Yn y cyfamser, pan daw pethau'n ôl i'r drefn arferol, bydd nifer o gopïau o adroddiadau hanes tai a gwblhawyd yn ddiweddar a roddwyd ar waith gan aelodau'r gangen yn cael eu hargraffu'n broffesiynol i'w dosbarthu i adrannau archifau a llyfrgelloedd lleol. Ariennir hyn yn bennaf gyda chyfraniad hael dros ben a roddwyd gan Gymdeithas Hanes Dinbych y llynedd. Bydd ein gweithgareddau eraill a drefnwyd ar gyfer y flwyddyn ac y bu'n rhaid eu gohirio yn cael eu hail-drefnu cyn gynted â phosib pan ddaw hyn yn ymarferol.

Ric Tyler in the loft (when completing his architectural report) – providing evidence that this beam had originally been visible from below. Gina and Margaret have decided that these sketches, and others, will be used to illustrate the completed history of Terfyn. For the completion we will have to wait for the re-opening of the Archives.

Meanwhile it is planned that when normal services resume, a number of copies of recently completed house history reports that have been carried out by branch members will be professionally printed for distribution to archive departments and local libraries. This will largely be funded through a very generous donation made by the Denbigh History Society last year. Our other planned activities for this year that had to be postponed will of course be reorganised as soon as this becomes feasible.

**Cangen Eryri: Project Plwyfi yr hen Sir Gaernarfon** gan Peter Masters

Cafwyd cychwyn da i'r Project Plwyfi yn 2019 gyda sesiwn hyfforddi yn yr archifau. Dechreuodd bobl ymchwilio'r rhestrau ac wrth i'r canlyniadau ddechrau dod i mewn, fe'u gwiriwyd ac fe'u hychwanegwyd i'r tai a restrwyd yr oeddem yn gwybod amdanyn nhw a'u hidlo i nodi tai a wiriwyd yn flaenorol. Cynlluniwyd sesiwn ddilynol i adolygu'r hyn y cafwyd hyd iddo a chynllunio'r cam nesaf, ond wedi'r sefyllfa Covid-19 gohiriwyd pob dim. Rhestrir 76 o blwyfi ar gyfer Sir Gaernarfon. Hyd yma yn y Project Plwyfi, mae 19 o'r plwyfi hynny wedi eu chwilio gan 9 ymchwilydd, ac o'r 164 o dai a nodwyd fel rhai oedd yn addas ar gyfer ymchwil pellach, mae 100 yn adeiladau Rhestredig I neu II* a rhestrir 67 yng Nghofnod Rhestr Eiddo Sir Gaernarfon; mae 98 tŷ ar restr NPNR.

Wrth groes-gyfeirio ein basdatau cafwyd, o'r 164 o dai a adnabuwyd o fewn yr 19 plwyf hynny, bod 67 tŷ wedi eu hasesu o'r blaen. Penderfynwyd nad oedd 55 o'r rheini yn addas gan nad oedd ynddyn nhw bren priodol neu roedd wedi ei 'dyfu'n gyflym' neu'n Amrywiol. Dyddiwyd y 12 tŷ arall drwy gyfrwng dendrocronoleg gydag ystod dyddiad o 1494-1586. Oherwydd newid terfynau mae 60 o'r tai bellach yn dod o fewn plwyfi Meirionnydd ac mae rhai bellach yng Nghonwy, sy'n lleihau'r nifer o dai sydd ar gael ar gyfer eu hystyried ymhellach i oddeutu 37.

O'r 37 plwyf yng nghofrestr "Adeiladau Rhestredig" Cadw yn yr hen Sir Gaernarfon mae'r deg yng nghantref Arllechwedd hefyd wedi eu hymchwilio gan Terry Williams. Mae naw yn Llŷn wedi eu hymchwilio gan Margaret Dunn; mae 8 o'r 15 plwyf yn Arfon yn cael eu hymchwilio gan aelodau eraill o'r gangen, fel y 3 nawr ym Meirionnydd (Llanfrothen, Llandecwyn a Phenrhyndeudraeth). Mae Terry Williams wedi cytuno i ymchwilio'r plwyfi sydd ar ôl yn yr hen Sir Gaernarfon. Dilynwyd y fformat a ddosbarthwyd ac mae rhai plwyfi wedi eu hymchwilio yn hynod fanwl, ond does dim ffotograffau nag ewyllysiau wedi eu cynnwys ac ni threfnwyd ymweliadau tŷ.

Ers ei sefydlu, dros ddegawd yn ôl, mae oddeutu 36 plwyf wedi eu hymchwilio o'r blaen o fewn yr hen Sir Gaernarfon;

**Snowdonia Branch: Parishes Project covering old Caernarfonshire** by Peter Masters.

The Parishes Project got off to a good start in 2019 with a training session in the archives, people started to research the lists and results began to trickle in. These were checked and added to the known houses listed and filtered to mark previously checked houses. A follow up session was planned to review what had been found and plan the next step, but since the Covid-19 situation all things have been postponed. There are 76 parishes listed for Caernarfonshire. So far in the Parishes Project 19 of those parishes have been searched by 9 researchers, of the 164 houses identified as being suitable for further research,100 are Listed I or II* buildings and 67 are listed in the Caernarfonshire Inventory Record; 98 houses have a NPNR Listing.

Cross reference with our database shows that of the 164 houses identified within those 19 parishes, 67 houses have previously been assessed. 55 of those were deemed unsuitable by virtue of having either no suitable timber or it being "Fast grown" or Misc. The remaining 12 houses were dated using dendrochronology with date ranges from 1494-1586. Because of boundary changes over 60 of the houses now fall within the Meirionnydd parishes and some are now in Conwy, which reduces the number of available houses for further consideration to around 37.

Of the 37 parishes in the Cadw "Listed Buildings" register in old Caernarfonshire all ten in Arllechwedd cantref have also been researched by Terry Williams. Nine in Llŷn have been researched by Margaret Dunn; 8 of the 15 parishes in Arfon are being researched by other branch members, as are the 3 now in Merioneth (Llanfrothen, Llandecwyn and Penrhyndeudraeth). Terry Williams has agreed to research the remaining old Caernarfonshire parishes. The circulated format has been used with some parishes being researched in considerable detail, but no photographs or wills have been included and no house visits made.

Since its inception, over more than a decade ago, within Caernarfonshire some 36 parishes have been previously re-

PREIFATRWYDD – Mae'r tai a grybwyllir ar y wefan hon neu yn y Cylchlythyr hwn ac sydd â chysylltiad â DHDC yn breifat a dydyn nhw **DDIM yn agored i'r cyhoedd ar unrhyw adeg**

PRIVACY – Houses mentioned on the website or in this Newsletter and /or linked with DOWH are private and are **NOT open to the public at any time**

adnabuwyd 181 o dai o fewn y plwyfi hynny. Archwiliwyd 53 tŷ o fewn Project Eryri, gydag oddeutu 93 o fewn Project Dendrocronoleg Gogledd Orllewin Cymru ac 16+ yn y project Ymchwil wedi ei Dargedu. Dydy'r gweddill ddim eto wedi eu categoreiddio ac nid oes neb wedi ymweld eto â llawer ohonyn nhw. Gyda'r gwaith o wirio ac archwilio blaenorol bydd gorgyffwrdd anochel yn digwydd rhwng ymchwil newydd, cyfredol a blaenorol felly mae angen basdata cynhwysfawr cadarn.

searched; 181 houses were identified within those parishes. 53 houses were inspected under the Snowdonia Project, with some 93 under the North West Wales Dendrochronology Project and 16+ in the Targeted Research project. The balance has not yet been categorised. Many have not yet been visited. With the amount of previous checking and inspecting there will be the inevitable overlap between new, current and past research hence the need for a robust comprehensive database.

**PROJECT PLWYFI: BETH NESAF**? gan Martin Cherry

Fel mae llawer ohonom sy'n cymryd rhan yn y Project Plwyfi wedi sylweddoli, mae yna wybodaeth ddiddiwedd ar gael ar-lein, yn ogystal â nifer fawr o safleoedd tanysgrifio'n unig sydd wedi diddymu eu taliadau tra bod yr argyfwng yn dal i ddigwydd. Ceir darlun eithaf llawn o'r hyn sy'n goroesi ar bortal http://historicwales.gov.uk, a cheir hanes pobl hynod o ddiddorol mewn adnoddau wedi eu digideiddio megis ewyllysiau a rhestrau eiddo yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, cofrestrau genedigaethau, marwolaethau a phriodasau, dosraniad degwm (a mapiau), cyfrifiadau 1841-1911 a chrynodebau deunydd a gedwir gan archifau lleol a chenedlaethol, ynghyd â chwiliadau Google cyffredinol. Ond heb gael mynediad i lyfrgelloedd ac archifdai ac, yn fwy na dim, i'r tai eu hunain, mae'n teimlo fel teithio o'n cadair freichiau! Pan fyddwn unwaith eto'n gallu crwydro – ac mae arwyddion o lacio graddol, ac mae ambell ymweliad cofnodi eisoes wedi bod yn bosib – mae angen i ni ofyn i ni ein hunain, "Be sy nesaf?" Y pwynt cyntaf i'w wneud yw bod casglu'r wybodaeth hon yn werthfawr ynddi ei hun, cyn belled â'i bod yn dod ar gael i bawb, efallai ar ein gwefan ein hunain ymhen amser. Ond, wrth i'n casgliad o wybodaeth gynyddu fe ddylai fod yn bosibl gweld patrymau – mewn perchnogaeth, mathau o adeiladu a'r defnydd a wnaed o addurn a manylder pensaernïol er mwyn gwneud argraff ar y cymdogion. Bydd hyn i gyd yn codi cwestiynau a, gobeithio, yn dechrau darparu atebion, a bydd yn darparu gwybodaeth ar gyfer ein ffordd o chwilio am ariannu ar gyfer gwaith arolwg manwl a dyddio cylchoedd coed pan fydd pethau'n dod yn ôl i drefn arferol, efallai yn 2021.

Does dim rhaid i ni aros hyd goresgyn y Covid-19 cyn i ni ddechrau gweld darlun mwy eglur yn ymddangos o'r holl wybodaeth yr ydym wedi bod yn ei gasglu. Er enghraifft, plwyf Llanelltyd, ar lannau'r Mawddach ger Dolgellau. Yma ceir nifer fechan o dai ffrâm nenfforch, yn cynnwys un nad yw erioed wedi ei adnabod o'r blaen (Ffig 1); mae'n ymddangos bod sawl ffermdy arall wedi cael eu hail-godi er eu bod yn cynnwys tystiolaeth ddifyr o ddeunydd hŷn, digon i awgrymu eu bod nhw hefyd, unwaith, yn dai nenfforch, efallai yn dai hirion (lle'r oedd pobl a gwartheg yn byw o dan yr un to). Credid ar un pryd bod tai nenfforch yn dyddio'n llwyr o gyfnod cyn tai deulawr gyda thoeau confensiynol ffrâm-A, ond mae ymchwil Margaret Dunn a'i thîm (cyhoeddwyd yn Discovering the Historic Houses of Snowdonia) yn ei wneud yn amlwg bod y



Ffig/Fig-1

**PARISHES PROJECT: WHAT NEXT?** by Martin Cherry

As many of us involved in the Parishes Project have been finding out, there is an enormous amount of freely accessible on-line information, supplemented by large numbers of subscription-only sites that have dismantled their pay-walls for the duration of the crisis. A pretty full picture of what survives can be achieved via the http://historicwales.gov.uk portal, and considerable human interest added from digitised resources such as National Library of Wales wills and inventories, the registers of births, deaths and marriages, the tithe apportionment (and maps), the 1841-1911 censuses and summaries of material held by local and national archives, together with general Google searches. But without getting into libraries and archives and, above all, into the houses themselves, it's a bit like armchair travelling! When we are able to get back out and about – and there is a sign of a gradual thaw, and the occasional recording visits have already proved possible – we need to ask ourselves "what next?" The first point to make is that collecting this information is valuable in itself, as long as it becomes accessible to all, perhaps on our own website in due course. But, as our information base increases it should become possible to discern patterns – of ownership, of building and construction types and the use made of decoration and architectural detail to impress neighbours. All this will raise questions and, hopefully, begin to provide answers, and will inform the way in which we seek funding for detailed survey work and tree-ring dating when things get back to normal, perhaps in 2021.

We don't have to wait until the Covid-19 'all clear' before we can begin to see a clearer picture emerging from all the information we've been collecting. Take one parish for example, Llanelltyd, on the banks of the Mawddach near Dolgellau. Here may be found a small number of cruck-framed houses, including one that has never been identified before (Fig 1); several other farm houses appear to have been rebuilt but contain tantalising evidence of older fabric, enough to suggest that they, too, were once cruck-framed houses, perhaps longhouses (where people and cattle were accommodated under the same roof). It used to be thought that cruck houses pre-date fully two-storeyed houses with conventional A-frame roofs, but the research of Margaret Dunn and her team (published in Discovering the Historic Houses of Snowdonia) makes it clear that both types of house were being built at the same time,

ddau fath o dŷ yn cael eu hadeiladu yr un pryd, o'r cyfnod Tuduraidd cynnar hyd ymhell i mewn i'r unfed-ganrif-ar-bymtheg a hyd yn oed wedi hynny. Eto, mae ffermdai eraill yn y plwyf yn edrych fel pe baen nhw'n newydd neu wedi eu hail-godi'n llwyr. Lle mae pobl wedi cynnig dyddiad, fel arfer mae hwnnw tua diwedd yr 17eg ganrif neu ddechrau'r 18fed ganrif – gwaith dyfalu gyda gwybodaeth ond gwaith dyfalu, serch hynny. Fe all tystiolaeth ddogfennol fod o gymorth. Rydym wedi adnabod oddeutu 50 o dai sydd â dyddiad cyn yr 17eg ganrif wrth ddefnyddio ffynonellau a gyhoeddwyd a chanlyniadau gwaith maes yr RCAHMW. Mae cofnodion Esgob Bangor ar gyfer 1563 (cyhoeddwyd yn Rhestr Eiddo'r RCAHMW ar gyfer Meirionnydd) yn amcanu bod 38 cartref yn y plwyf bryd hynny. O gymryd bod y rhif hwn yn eithaf cywir mae'n awgrymu bod llawer o'r tai ar ein rhestr o 50 yn dyddio ar ôl 1563. Mae treth aelwydydd 1662 yn enwi 52 o breswylwyr tai, y rhan fwyaf ohonyn nhw gydag un aelwyd. Yn anffodus, ni ddatgelir enwau'r tai. Hyd yn oed wrth ystyried y posibilrwydd bod rhai tai oedd yn bodoli yn 1563 wedi adfeilio, mae'r ffaith fod y boblogaeth wedi cynyddu rhwng 1563 ac 1662 yn golygu bod llawer o'n 50 yn dyddio o'r ganrif rhwng 1563 ac 1662 – neu o leiaf yn sefyll ar safleoedd sefydledig bryd hynny. Gan mai dim ond un aelwyd oedd yn y mwyafrif, a oedden nhw'n dai hir ffrâm nenfforch, y daeth adeiladau efo lloriau eraill gyda mwy o le ac yn fwy cyfforddus i gymryd eu lle'n ddiweddarach? Rydym yn gwybod o waith haneswyr megis Nia Powell bod ffermio gwartheg mewn plwyfi fel hon yn yr 17eg ganrif yn hynod o broffidiol a bod modd i ffermwyr a phorthmyn ddod yn gyfoethog a hyd yn oed weithredu fel benthycwyr arian. Mae'r rhestrau eiddo sydd wedi goroesi ar gyfer teuluoedd amaethu yn Llanelltyd yn yr 17eg ganrif yn dangos hyn. Felly, cwestiwn mawr ac, efallai, y cwestiwn mawr ei hun, yw, pa bryd yn union y digwyddodd yr 'Ail-adeiladu Mawr' yn y rhan hon o'r sir?

Efallai bod hyn oll yn swnio braidd yn academig, ond mae un tŷ yn ein galluogi i ychwanegu ychydig o fywyd i'r mater, er nad yw'n datrys yr holl gwestiynau. Mae Cae-mab Seifion yn nodweddiadol o'r math lleol: saif ar waelod llethr, o gynllun hir, wedi ei adeiladu o gerrig ac o bosib yn wreiddiol gyda tho gwellt (Ffig 2). Ynddo mae neuadd, a gynhesir gan le tân cil pentan mawr, ac mae'n bosib dringo i'r ystafell uchod (y prif ystafell wely, mae'n debyg) drwy ddringo grisiau murol, un o nodweddion clasurol 'Tŷ Eryri'. Ar y pen arall, cynhesir y parlwr gan le tân llawer llai nad oedd yn cynhesu'r ystafell uwch, a ddefnyddir o bosib ar gyfer storio. Cartref iwmyn yn gynnar yn yr 17eg ganrif oedd y tŷ ac mae rhestr eiddo Griffith Meiricke, oedd yn byw yno pan fu farw yn 1683, yn ei alw'n glerc sydd, yn y cyd-destun hwn, yn golygu dyn llengar yn hytrach na chlerigwr – gadawodd gist lle'r arferai gadw ei bapurau. Roedd y rhan fwyaf o'i bethau yn ymwneud â'r fferm, yn ogystal â swm sylweddol o arian (£110) oedd ynghlwm â biliau a bondiau. Mae Meiricke yn un o'r ychydig o unigolion a grybwyllwyd yn Nhreth Aelwydydd 1662 y gallwn ei gysylltu â thŷ neilltuol. Fodd bynnag, doedd ynddo ond un aelwyd. Os mai'r un dyn yw hwn, efallai ei fod wedi byw yn


Cae-mab Seifion

from the early Tudor period until well into the late sixteenth century and even beyond. Yet other farm houses in the parish look to be newly built or entirely rebuilt. Where people have ventured a date, it is normally to the late seventeenth or early eighteenth centuries – informed guesswork but guesswork all the same. Documentary evidence can help. We have identified around 50 houses pre-dating c1700 using published sources and the results of fieldwork by the RCAHMW. The Bishop of Bangor's returns for 1563 (published in the RCAHMW inventory for Merioneth) estimated that there were 38 households in the parish at that date. Assuming this figure to be reasonably accurate it suggests that many of the houses on our list of 50 must post-date 1563. The 1662 hearth tax gives the names of 52 occupiers of houses, most of them with one hearth. Unfortunately, the identity of the houses is not revealed. Even allowing for the possibility that some houses existing in 1563 might have fallen into disuse, the fact that the population increased between 1563 and 1662 means that many of our 50 must date from the century between the 1563 and 1662 – or at least occupy sites that were established then. Since the majority had only a single hearth, were they cruck-framed longhouses, later replaced by more commodious and comfortable fully storeyed buildings? We know from the work of historians such as Nia Powell that cattle farming in parishes such as this in the seventeenth century was extremely lucrative and that farmers and drovers could become prosperous and even act as money-lenders. The inventories that survive for seventeenth-century Llanelltyd farming families bear this out. So, one big – perhaps the big question – is, when precisely was the 'Great Rebuilding' in this part of the county?

All this might sound a little academic, but one house allows us to add a little life to the matter, although it hardly solves all the queries. Cae-mab Seifion is typical of the local type: downhill sited, elongated in plan, stone built and possibly originally thatched (Fig 2). It comprises a hall, heated by a big inglenook fireplace and the room above (presumably the main bedroom) is accessed by a mural stair – one of the classic features of the 'Snowdonian House'. At the other end, the parlour is heated by a much smaller fireplace that did not heat the upper room, which may have been used for storage. The house was the residence of a yeoman in the early seventeenth century and the inventory of Griffith Meiricke, who was resident there at the time of his death in 1683, calls him a 'clerk', which in this context must mean a literate man rather than a clergyman – he bequeathed 'a chest in which he used to keep his papers'. Most of his goods were related to the farm, as well as a considerable amount of money (£110) tied up in bills and bonds. Meiricke is one of the few individuals noted in the Hearth Tax of 1662 whom we can relate to a specific house. However, it had only one hearth. If it is the same man, he may well have resided in 1662 in a cruck-framed house with an open hall heated by a single stack. Did he rebuild it? Or his son? In his will he made provision for his widow 'to enjoy the house and garden, which she now holds for life': was that a separate building (part of a unit system)?

PREIFATRWYDD – Mae'r tai a grybwyllir ar y wefan hon neu yn y Cylchlythyr hwn ac sydd â chysylltiad â DHDC yn breifat a dydyn nhw **DDIM yn agored i'r cyhoedd ar unrhyw adeg**

PRIVACY – Houses mentioned on the website or in this Newsletter and /or linked with DOWH are private and are **NOT open to the public at any time**

1662 mewn tŷ ffrâm nenfforch gyda neuadd agored a gynheswyd gan un simnai. A wnaeth o ei ail-adeiladu? Neu ei fab? Yn ei ewyllys mae'n darparu ar gyfer ei weddw 'i fwynhau'r tŷ a'r ardd, i'w dal ganddi am ei hoes': a oedd hwnnw'n adeilad ar wahân (rhan o system uned?). Gadawodd bethau y gellid eu symud gyda gwerth o £170 ond, fel arfer, ychydig o nwyddau tŷ a restrir – yn wir dim ond gwely, carthenni, bwrdd, a rhai taclau pres a choed, ynghyd â'r gist. A fyddai gŵr fel hwn wedi dewis byw mewn hen dŷ neuadd agored ffrâm nenfforch? Efallai y byddai mynediad at weithredoedd a dogfennau eraill, ac efallai rhywfaint o ddyddio cylchoedd coed, yn ein helpu i fod yn fwy eglur a manwl gywir ar dai o'r math yma.

Mae un sylw olaf yn ymwneud â gwerth adfeilion. Roedd perthynas i Griffith Meiricke hefyd yn berchen ar dŷ yn y plwyf. Roedd Berthlwyd (Ffig 3), sydd bellach yn adfail, yn sylweddol, gyda seler enfawr a'r hyn sy'n ymddangos fel grisiau troellog ar ochr y prif simnai a arweiniodd at y brif siambr. Yn wahanol i dai lle mae pobl yn dal i fyw mae adfeilion, er gwaethaf y colledion amlwg, weithiau yn darparu tystiolaeth a all fod yn anodd i'w gweld pe bai rhywun yn dal i fyw ynddyn nhw ac wedi eu cuddio o ganlyniad i newidiadau a gwelliannau'r ganrif ddiwethaf neu fwy. Byddai'n dda cael dyddiadau ar dai megis y rhain i'n helpu i ddeall datblygiad y tai yma a natur y teuluoedd oedd yn byw ynddyn nhw.

Ffig 1 Tŷ ffrâm nenfforch a 'ddarganfuwyd yn ddiweddar' yn uchel uwchben aber afon Mawddach. Mae'r nenfforch, fel y gwelir yn aml, wedi ei amgylchynu gan y lle tân cerrig a'r simnai a osodwyd. Dim ond un ochr sydd i'w weld erbyn heddiw. Efallai ei fod yn dyddio o flynyddoedd cynnar yr 16eg ganrif hyd at canol y ganrif.

Ffig 2 Cae-mab Seifion, Llanelltyd, ffermdy clasurol iwmon – y safon aur i ffermwyr y plwyf ar ddiwedd yr 17eg ganrif.

Ffig 3 Berthlwyd, Llanelltyd, ffermdy gŵr bonheddig o ansawdd uchel, o'r 17eg ganrif mae'n debyg, a adfeiliodd wrth i'r eiddo gael ei gynnwys mewn stad fwy oedd â'i phencadlys y tu allan i'r plwyf.




He left movables worth £170, but as usual, very few household good are itemised – indeed only a bedstead, blankets, a table, and some brass and wooden utensils, along with the chest. Would such a man still have chosen to dwell in an old cruck-framed open hall house? Access to deeds and other documents, and perhaps some tree-ring dating, might help us achieve greater clarity and precision on houses of this sort.

One final thought concerns the value of ruins. A kinsman of Griffith Meiricke also owned a house in the parish. Berthlwyd (Fig 3), now a ruin, was substantial, with a capacious cellar and what appears to have been a spiral stair to the side of the main stack that led to the principal chamber. Unlike houses that are still lived in, ruins, despite the obvious losses, sometimes provide evidence it might be difficult to see if they are still occupied and encumbered and disguised with the changes and improvements of the last century or more. It would be good to get dates on houses such as these to help us understand the development of these dwellings and the nature of the families that lived in them.

*Fig 1 A 'newly discovered' cruck-framed house high above the Mawddach estuary. The cruck is, as so often, largely engulfed by the inserted stone fireplace and stack. Only one blade is now visible. It may date from the early- to mid-sixteenth century.*

*Fig. 2 Cae-mab Seifion, Llanelltyd, a classic yeoman farmhouse – the gold standard for farmers in the parish in the late seventeenth century.*

*Fig. 3 Berthlwyd, Llanelltyd, a good-quality gentleman's farmhouse, probably of the seventeenth century, that fell into disuse as the property was amalgamated into a larger estate centred outside of the parish.*

**YR YSGRIFENNYDD AELODAETH YN EIN HATGOFFA**

Mae tanysgrifiadau aelodaeth yn ddyledus ar Ebrill 1af.
Aelodaeth unigol £15 y flwyddyn; aelodaeth ar y cyd £20 y flwyddyn; aelodaeth oes £ 100
Gwnewch yn siŵr eich bod wedi adnewyddu er mwyn cadw eich buddion aelodaeth. I'w gwneud yn haws rydym yn eich annog i drefnu Gorchymyn Sefydlog (gweler y wefan am ffurflen). Fel arall, anfonwch eich siec i Ysgrifennydd Aelodaeth DHDC, Caerfallen, Rhuthun LL15 1SL (01824 704404)
membership@discoveringoldwelshhouses.co.uk

**OS OES GENNYCH CHI DDIDDORDEB MEWN HEN DAI** ac os nad ydych eisoes yn aelod, pam na wnewch chi ystyried ymaelodi â'r Grŵp? Mae manylion llawn a ffurflen gais ar ein gwefan.

**ERTHYGLAU o'n CANGHENNAU:** Mae aelodau'n parhau i ymgymryd ag ystod o weithgareddau a gofynnwyd i bob cangen ysgrifennu rhywbeth ar gyfer y Cylchlythyr hwn. Diolchwn i bawb sydd wedi cyfrannu. Mae'n debygol y byddwn yn gofyn am erthygl fer (neu hirach) gan bob cangen ar gyfer cylchlythyrau'r dyfodol hyd nes y byddwn yn gweld os / pryd / sut y bydd cyfarfodydd canghennau'n gallu ail-gychwyn.

**A REMINDER FROM THE MEMBERSHIP SECRETARY**

Membership subscriptions are due on April 1st.
Individual membership £15 pa ; Joint membership £20 pa; life membership £100
Please make sure you renew on time to retain your membership benefits. To make it easier you are encouraged to take out a Standing Order (see website for form). Otherwise please send your cheque to DOWH Membership Secretary, Caerfallen, Ruthin LL15 1SL (01824 704404)
membership@discoveringoldwelshhouses.co.uk

**IF YOU ARE INTERESTED IN OLD HOUSES** and are not already a member, why not consider joining the Group? Full details and application form on our website.

**ARTICLES from BRANCHES**: Members continue to undertake a range of activities and each branch has been requested to write something for this Newsletter. We thank all who have contributed. It is likely that we will request another short (or longer) article from each branch for future newsletters until we see if / when / how branch meetings are able to recommence.

CBHC RCAHMW

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

TESCO Bags of Help

MARC FITCH